# Rhagair

Mae'r arolygiad hwn o waith troseddwyr ifanc ym Mhowys yn un o nifer bach o arolygiadau llawn ar y cyd rydym yn eu hymgymryd â hwy bob blwyddyn gyda chydweithwyr o'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol, iechyd a dysgu a sgiliau.

Y mwyafrif o Dimau Troseddu Ieuenctid sydd wedi eu dewis ar gyfer yr arolygiadau hyn yw'r rhai sydd â'u perfformiad – yn seiliedig ar Ddangosyddion Canlyniadau Cyfiawnder Ieuenctid a gefnogir gan wybodaeth arall, fel arolygiadau diweddar – o bryder sylweddol. O dro i dro, rydym hefyd yn cynnwys ardaloedd sy'n perfformio'n uchel er mwyn sefydlu meincnod o ymarfer da.

Fe ddewison arolygu Powys yn bennaf oherwydd hwn oedd ein harolygiad ar y cyd llawn cyntaf yng Nghymru ac roeddem eisiau ymweld â Thîm Troseddu Ieuenctid a oedd yn perfformio'n dda o'i gymharu â Dangosyddion Canlyniadau Cyfiawnder Ieuenctid.

Dylid ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn yn y cyd-destun oddi mewn i'r hyn mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Powys yn gweithredu. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ardal helaeth ddaearyddol sydd gan fwyaf yn wledig ond sy'n rheoli baich achosion cymharol fach, a adlewyrchwyd yn y maint cymharol o'r sampl o achosion a arolygwyd o le y tynnwyd ein dyfarniadau. Mae nifer o'i achosion yn ymwneud â phobl ifanc rhwng 16 a 17 oed, gydag ond nifer gweddol fach ohonynt wedi eu collfarnu o droseddau treisgar. Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Powys yn croesawu nifer o blant a phobl ifanc a osodir yn y sir gan awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys nifer o blant o Loegr, a all gynnwys rhwng17-20% o'i waith. O ganlyniad, yn ogystal â hyrwyddo trosglwyddiadau i wasanaethau prawf ar gyfer pobl ifanc fel maent yn troi'n oedolion, mae hefyd yn ymgymryd â phrosesau gofal a throsglwyddo fel maent yn symud rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

Er gwaethaf y cymhlethdod hwn, roeddem yn falch o weld bod Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Powys yn gweithio'n dda ag asiantaethau partner i helpu plant a phobl ifanc gwblhau eu dedfrydau a chynnal newidiadau positif yn eu bywydau. Roedd y staff yn gaffaeliad mawr ac roedd gan weithwyr y ddawn o adeiladau perthnasau â'r plant a phobl ifanc, a dioddefwyr eu troseddau. Fodd bynnag, tra roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi cyflwyno gwelliannau ers ein harolygiad yn 2010, roedd yn siomedig canfod bod angen gwneud gwelliant sylweddol i brosesau a systemau mewn perthynas â diogelu'r cyhoedd a'r plentyn neu berson ifanc eu hunain, ac i oruchwyliaeth gan reolwyr o hyd. Roedd angen datblygiad sylweddol i drefniadau trosglwyddo. Canfuom fod plant a phobl ifanc yn ein sampl, a oedd mewn gofal awdurdod lleol neu'n cael eu trosglwyddo rhwng ardaloedd neu i'r gwasanaeth prawf a'u bod o dan gyfrifoldeb mwy nag un asiantaeth, yn derbyn safon is o wasanaeth.

Nod yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn yw cynorthwyo Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Powys ar ei daith i barhau i wella drwy ffocysu ar feysydd allweddol penodol. Mae gan y gwasanaeth hanes o groesawu a gyrru datblygiad perfformiad ac rydym yn hyderus bydd yn gweithredu'n gyflym i'w cyflwyno.



***Liz Calderbank***
*Prif Arolygydd Prawf EM*

*Mehefin 2013*

# Crynodeb

### Lleihau'r tebygrwydd o ail-droseddu ★★★☆

*At ei gilydd, yr oedd gwaith i leihau ail-droseddu'n dda.* Tra bod asesiadau a gwblhawyd pan ddechreuodd y plentyn neu berson ifanc ar ei ddedfryd o ansawdd amrywiol, fe'u hadolygwyd yn briodol trwy gydol y gorchymyn. Fodd bynnag, yr oedd bylchau mewn perthynas â'r asesiad a chynllunio am iechyd emosiynol a meddyliol. Rhoddwyd sylw cyfartal i gyflenwi ymyriadau priodol yn effeithiol i blant a phobl ifanc, a'u dioddefwyr. Dangosodd gweithwyr achos ymrwymiad i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i adnoddau amrywiol a phriodol ac, o ganlyniad, gyflawni ystod o ganlyniadau positif. Yr oedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi datblygu perthynas bositif ag asiantaethau partner ond nid oedd systemau mewn lle i sicrhau diffiniad clir o rolau a chyfrifoldebau, a oedd ag effaith negyddol, yn arbennig ar achosion trosglwyddo. Nid oedd goruchwyliaeth gan reolwyr wedi gwella'n ddigonol ansawdd y gwaith o leihau'r tebygrwydd byddai plentyn neu berson ifanc yn ail-droseddu.

### Diogelu'r cyhoedd ★★☆☆

*At ei gilydd, yr oedd gwaith i ddiogelu'r cyhoedd a dioddefwyr go iawn a phosibl yn anfoddhaol.* Ni roddwyd blaenoriaeth ddigonol i'r risg o niwed mae plentyn neu berson yn ifanc yn peri i eraill ac nad oedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn ddigon effeithiol i sicrhau bod y gwaith i ddiogelu'r cyhoedd a dioddefwyr o ansawdd digon da. Nid oedd rheolwyr achos bob tro yn adnabod newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc a ddylai wedi lansio adolygiad o sut oedd yr achos yn cael ei reoli, na chymryd digon o sylw o reoli risgiau i ddioddefwyr. Chwaraeodd Fforwm Cynllunio Achosion rôl weithredol ac effeithiol mewn cyfeirio a gweithredu mewn achosion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a oedd wedi eu hadnabod fel rhai a barai risg uchel o niwed i eraill. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion, yn enwedig yn y rhai a gynhwysai trosglwyddiad, ni sicrhaodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bod cyd-weithio digonol a chyfathrebu rhwng asiantaethau partner. Gwelsom rywfaint o waith da o gwmpas gweithredu ymyriadau, gyda rhywfaint yn cymryd i ystyriaeth anghenion penodol, unigol y plentyn neu'r person ifanc.

### Diogelu plant a phobl ifanc ★★☆☆

*At ei gilydd, yr oedd gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc ac i leihau eu bregusrwydd yn anfoddhaol.* Nid oedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gwneud digon i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ac ystyriom nad oedd goruchwyliaeth gan reolwyr wedi gwneud gwahaniaeth digonol i ansawdd y gwaith yn y maes hwn. Nid oedd asesiadau yn cynnwys manylion hanfodol a dadansoddi, ac yr oedd ansawdd y cynllunio'n wael, yn arbennig, er enghraifft, mewn perthynas ag iechyd emosiynol a meddwl. Nid oedd rheolwyr achos yn sicrhau eu bod yn gweithredu'n briodol mewn digon o achosion i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc, na chymryd i ystyriaeth newidiadau yn eu hamgylchiadau. Weithiau nid oedd atgyfeiriadau i wasanaethau eraill yn cael eu gwneud lle bo'u hangen neu yr oedd bylchau mewn ymgysylltu effeithio ag asiantaethau eraill. Tra bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r cyngor sir yn ehangach yn gweithio'n galed i ddatrys hyn, yr oedd materion penodol yn ymwneud ag achosion yn ymwneud â phlant o dan ofal awdurdod lleol neu a oedd wedi eu trosglwyddo.

## Sicrhau y bwrir y ddedfryd ★★★★

*At ei gilydd, yr oedd gwaith i sicrhau y bwrir y ddedfryd yn dda iawn.* Ymgysylltodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dda â phob defnyddiwr gwasanaeth. Rhoddwyd proffil uchel i gyfiawnder adferol ac yr oedd dull cynhwysol at ddioddefwyr. Adeiladodd rheolwyr achos berthnasau effeithiol â'r plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, a oedd o gymorth trwy gyfnod y ddedfryd. Tra na chynhwyswyd materion amrywiaeth yn ddigonol ar gynlluniau bob tro, yr oedd gan reolwyr achos ddealltwriaeth dda o'r materion perthnasol a sicrhasant yr ystyriwyd hwy er mwyn gwella'r cyflenwi o ymyriadau. Cymerasant gamau priodol i gydymffurfio a, chyda'u partneriaid arbenigol, i gynnal canlyniadau positif a gyflawnwyd yn ystod y ddedfryd. Gofynnwyd am farn defnyddwyr y gwasanaeth a gweithredwyd yn bositif i gymryd y rhain i ystyriaeth.

## Llywodraeth ★★☆☆

*At ei gilydd, yr oedd gwaith yn berthnasol i lywodraethu'n anfoddhaol.* Roedd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gorff cydlynol a gynrychiolwyd yn dda, a ddarparodd faes da ar gyfer rhannu gwybodaeth a chefnogi gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Iechyd i gwrdd â'i flaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, ni ddarparodd arweinyddiaeth ddigon cryf ar gyfer troseddau ieuenctid. Roedd ychydig o yrru strategol oddi wrth y Bwrdd Rheoli i archwilio a herio materion lleol o bwys fel rhai yn ymwneud ag achosion a drosglwyddwyd rhwng ardaloedd ac i'r gwasanaeth prawf rheoli'r risg o niwed i eraill a diogelu plant a phobl ifanc.

Roedd dull o weithredu amlasiantaethol i ddatblygu gwasanaethau ar draws Powys, gyda ffocws ar gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc bregus fel gr□p cyfannol. Cymerodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gamau positif i sicrhau y cedwir plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu neu'n debygol o droseddu yn uchel ar agenda’r sir a bod gwasanaethau’n cymryd sylw o'u hanghenion.

Ariannwyd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol ac roedd gan y tîm integredig ddealltwriaeth dda o'r egwyddorion o ymarfer effeithiol.

## Argymhellion

Dylai gwaith gwella Ôl-arolygiad ffocysu'n arbennig ar y canlynol:

1. Bod Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gyrru'n rhagweithiol yr agenda strategol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, yn adnabod blaenoriaethau lleol a sicrhau bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn atebol am ei berfformiad yn y meysydd hyn (Cadeirydd, Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid).
2. Y gwneir gwelliannau i bolisi strategol mewn perthynas â Phlant Mewn Gofal ac achosion o drosglwyddo, ac i sicrhau bod diogelu a'r risg o niwed i eraill yn ganolog i'r gwaith hwn (Cadeirydd, Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid).
3. Y cwblheir asesiadau cychwynnol a'u hadolygiadau i ansawdd digonol gyda chyfeiriad arbennig at y risg o niwed y peri'r plentyn neu berson ifanc i eraill a'u bregusrwydd (Pennaeth y Gwasanaeth, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid).
4. Bod trefniadau sicrwydd ansawdd, gan gynnwys goruchwyliaeth gan reolwyr, yn sicrhau bod asesiadau a chynlluniau, a'u hadolygiadau o leiaf o ansawdd digonol (Pennaeth y Gwasanaeth, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid).
5. Bod ymateb cyd-weithredol, cynhwysfawr wedi ei gyfathrebu'n briodol a'i gofnodi i newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc, gyda sylw arbennig i ddiogelu a'r risg o niwed y peri'r plentyn neu berson ifanc i eraill (Pennaeth y Gwasanaeth, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid).

# Cynnwys


**Rhagair** ........ 1

**Crynodeb** ........ 2

**Argymhellion** ........ 4

**Cynnwys** ........ 5

**Thema 1: Lleihau'r Tebygrwydd O Ail-Droseddu** ........ 6

**Thema 2: Diogelu'r Cyhoedd** ........ 13

**Thema 3: Diogelu'r Plentyn Neu'r Person Ifanc** ........ 18

**Thema 4: Sicrhau Y Bwrir Y Ddedfryd** ........ 23

**Thema 5: Rhowch Deitl Modiwl Ychwanegol I Mewn** ........ 28

**Atodiad 1 Gwybodaeth Gyd-Destunol Am Yr Ardal A Archwiliwyd** ........ 32

**Atodiad 2 Gwybodaeth Gyd-Destunol Am Y Sampl Achosion A Arolygwyd** ........ 33

**Atodiad 3 Diolchiadau** ........ 34

**Atodiad 4 Trefniadau Arolygu** ........ 35

**Atodiad 5 Dull O Sgorio** ........ 36

**Atodiad 6 Meini Prawf** ........ 37

**Atodiad 7 Geirfa** ........ 38

**Atodiad 8 Rôl Arolygiaeth Prawf EM A'r Cod Ymarfer** ........ 40

# Thema 1: Lleihau'r tebygrwydd o ail-droseddu

### Beth rydym yn disgwyl ei weld

Gan mai pwrpas y system cyfiawnder ieuenctid yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc rydym yn disgwyl i bartneriaid cyfiawnder ieuenctid i gynyddu'r tebygrwydd o ganlyniadau llwyddiannus trwy ymgymryd ag asesu a chynllunio o ansawdd da, cyflenwi ymyriadau priodol a dangos arweinyddiaeth bositif a rheolaeth effeithiol.

### Sgôr asesiad achos

Oddi mewn i asesiad yr achos, at ei gilydd roedd 73% o'r gwaith i leihau ail-droseddu wedi ei wneud yn ddigon da.

### Canfyddiadau Allweddol

1. Ym mhob achos lle cynhyrchwyd adroddiad cyn-dedfrydu (PSR) ar gyfer y llys, roedd hwn o ansawdd da ac roedd trefniadau rheoli lleol yn effeithiol i sicrhau hyn.
2. At ei gilydd, cwblhawyd asesiadau a oedd plentyn neu berson ifanc yn debygol o ail-droseddu i safon ddigonol yn nwy ran o dair o achosion. Fel yr aeth yr achos yn ei flaen, bu gwelliant yn yr ansawdd o asesu ac, yn y mwyafrif, adolygwyd y tebygrwydd o ail-droseddu’n ddigon da trwy gydol y ddedfryd.
3. Roedd digon o gynllunio i ateb materion cysylltiedig ag ail-droseddu, ac adolygu cynlluniau, mewn ychydig llai na dwy ran o dair o achosion.
4. Roedd cyflenwi ac adolygu ymyriadau yn gryfder i YJS Powys. Roedd ystod o ymyriadau o ansawdd da, wedi eu cydbwyso'n briodol a'u hariannu yn cael range of good quality, eu cyflenwi ac yr oedd tystiolaeth bod plant a phobl ifanc yn symud yn eu blaenau'n gadarnhaol i leihau'r tebygrwydd y buasent yn ail-droseddu.
5. Roedd gweithio positif mewn partneriaeth wedi cynhyrchu rhai canlyniadau da i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, ni chefnogwyd ef yn ddigonol gan strwythurau ffurfiol a phrotocolau byw a fyddai'n sicrhau bod asiantaethau'n glir o'u cyfrifoldebau a'u rolau a gellid sicrhau eu bod yn atebol, yn enwedig mewn achosion yn ymwneud â throsglwyddiadau un ai i wasanaethau prawf neu rhwng ardaloedd llywodraeth leol.
6. Nid oedd goruchwyliaeth gan reolwyr wedi gwneud gwahaniaeth positif digonol i waith a ymgymerwyd ag ef i leihau'r tebygrwydd byddai plentyn neu berson ifanc yn ail-droseddu.

### Eglurhad o'r canfyddiadau

### 1. Asesiad

1.1. O'r 23 o achosion yr arolygwyd gennym, roedd chwech yn cynnwys plentyn neu berson ifanc mewn gofal awdurdod lleol ac yr oedd pedwar o'r rhain wedi eu rhoi ym Mhowys o ardal arall. Yn ychwanegol, roedd deg achos yn cynnwys trosglwyddo, rhai i'r gwasanaeth prawf ond y mwyafrif un ai i neu o ardal awdurdod lleol arall.

1.2. At ei gilydd, yr oedd amrywiaeth yn yr ansawdd o asesiadau cychwynnol o'r tebygrwydd byddai plentyn neu berson ifanc yn ail-droseddu. Hepgorodd rhai gwybodaeth bwysig am fregusrwydd, cam-ddefnyddio sylweddau, neu iechyd

emosiynol a meddwl. Roedd i nifer o asesiadau o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE), ddiffygion yngl□n â'r manylion oedd eu hangen i sicrhau gallai dysgwyr elwa orau o ymyriadau, fel o gwmpas lefelau cyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifogrwydd neu anghenion dysgu eraill.

1.3. Cymerodd y nyrs iechyd meddwl ddull o weithredu cynhwysfawr i asesu anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc a reolir gan yr YJS. Sgriniodd bob achos newydd ac ymuno yn nhrafodaethau am achosion gyda'i chydweithwyr. Yn ychwanegol, gwahoddwyd pob plentyn neu berson ifanc i gwblhau holiadur iechyd safonol ac asesiad iechyd meddwl a ddefnyddiwyd i helpu asesu eu hanghenion ac i gipio gwybodaeth na fuasent efallai yn dymuno rhannu â'u rheolwyr achos.

1.4. Rhoddwyd asesiad blaenoriaeth i bob plentyn a pherson ifanc a gyfeirwyd at CAIS[1] i benderfynu ar ddifrifoldeb a brys eu problemau; rhoddwyd gwerthusiad mwy cynhwysfawr i'r rhai ag aghenion mwy cymhleth, gan gynnwys asesiad o risg.

1.5. Er bod yr YJS yn ystyried dylai gymryd dull o weithredu ar y cyd mewn perthynas ag asesiad, nid oedd unrhyw systemau ffurfiol i sicrhau y digwyddodd hyn. Nid oedd rheolwyr achos bob tro'n tynnu'n ddigonol ar y wybodaeth a oedd ar gael iddynt pan oeddynt yn cynnal eu hasesiadau ac rydym yn ystyried bod y broses gyfredol o gasglu gwybodaeth oddi wrth gydweithwyr ar sail ad hoc, anffurfiol wedi arwain at fylchau yn y wybodaeth am faterion i'w hateb yn yr achos.

1.6. Roedd gan yr YJS y sgiliau a chymerodd ofal i ddarparu gwasanaethau effeithiol o gychwyn rhai o'r achosion mwyaf cymhleth. Roedd pob PSR a ddarparwyd i'r llys i helpu goleuo penderfyniadau dedfrydu o ansawdd da ac yr oedd trefniadau rheoli lleol adeiladau mewn lle i sicrhau y digwyddodd hyn.

1.7. Roeddem yn falch o nodi lefel o ddealltwriaeth staff yr YJS bod amgylchiadau ym mywyd plentyn neu berson ifanc yn dueddol o newid yn sydyn ac yn annisgwyl. Yn y rhan fwyaf o achosion, adolygwyd asesiadau trwy gydol y ddedfryd i gymryd y rhain i ystyriaeth.

## 2. Cynllunio ar gyfer ymyriadau

2.1. Cwblhawyd cynllun cychwynnol nifer o achosion a oedd yn cael eu rheoli gan YJS Powys gan YOT arall. Roedd dau o'r rhain yn rai cyfoes a pherthnasol ac nid oeddem yn disgwyl i reolwyr achos Powys wneud newidiadau iddynt. O'r 21 o achosion a oedd ar ól, roedd cynllunio i leihau ail-droseddu o ansawdd digonol yn llai na dwy ran allan o dair. Roedd yn siomedig gweld nad oedd nifer sylweddol yn rhoi digon o sylw i drefniadau gofal nac iechyd emosiynol a meddwl. Ar y llaw arall, roedd yn glir bod cam-ddefnyddio sylweddau'n uchel ar yr agenda ac fe'i hystyriwyd yn y rhan fwyaf o achosion a'i haeddodd.

2.2. Yn yr un achos cystodaeth yr arolygwyd, barnwyd gennym fod y cynllunio cychwynnol wedi bod o ansawdd digonol.

2.3. Lle adolygwyd asesiadau i gymryd i ystyriaeth newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc, ni newidwyd cynlluniau bob tro i adlewyrchu hyn. Adolygwyd llai na dwy ran o dair o gynlluniau'n ddigon da trwy gydol y ddedfryd.

[1] Darparydd sector gwirfoddol o wasanaethau cyffuriau ac alcohol ar draws Cymru yw CAIS.

## 3. Cyflenwi ymyriadau

3.1. Yn gyffredinol, gweithredwyd ymyriadau er mwyn lleihau'r tebygrwydd o ymyriadau yn dda. Gwnaethpwyd defnydd da o adnoddau o ansawdd da gan reolwyr achos i gael cydbwysedd priodol rhwng gwaith i leihau ail-droseddu, rheoli'r risg o niwed ac ateb bregusrwydd. Canfuom enghreifftiau o ymarfer arloesol, gyda rheolwyr achos yn mynd i gryn drafferth i helpu'r plentyn neu berson ifanc gael mynediad at ymyriadau priodol.

**Achos eglurhaol**

Trwy gydnabod anghenion iechyd emosiynol dwfn person ifanc yr oedd yn gweithio ag ef, defnyddiodd reolwr achos dechnegau tynnu sylw, fel chwarae drafftiau neu gynnal trafodaethau anffurfiol y tu allan i'r swyddfa, i leihau'r effaith o drafod pynciau anodd. O ganlyniad i'r amser a dreuliwyd gyda'r YJS, asesodd y dyn ifanc yr oedd yn gallu "*trin fy hun yn well mewn perthnasau a bod yn llai ymosodol*".

**Achos eglurhaol**

Rhoddwyd map o'i ardal leol i berson ifanc a gofynnwyd iddo dynnu llun 'mannau poeth' (lleoedd da i fod ynddynt) a 'mannau piblyd' (lleoedd drwg i fod ynddynt). Roedd i'w weld yn mwynhau hyn a bron yn ddiarwybod, fe ddarparodd doreth o wybodaeth i'w weithiwr am ei ddiddordebau, ei weithgareddau a pha mor ddiogel y teimlai yn ei gymdogaeth.

3.2. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymyriadau perthnasol i agwedd y plentyn neu'r person ifanc i droseddu, cam-ddefnyddio sylweddau, iechyd corfforol ac ETE a gyflenwyd yn briodol. Fodd bynnag, roedd meysydd eraill na atebwyd yn ddigon aml. Roedd y rhain yn cynnwys ymyriadau i ateb trefniadau byw, perthnasau teuluol a phersonol ac, yn arbennig, iechyd emosiynol neu feddwl. Weithiau yr oedd hyn oherwydd diffygion mewn asesu neu gynllunio ond, gan amlaf, ni roddwyd digon o ymdrech gan yr YJS i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud.

3.3. Y rhan fwyaf o'r amser, rhoddai gweithwyr yr YJS sylw i atgyfnerthu ffactorau positif yn ystod cyflenwi ymyriadau ac i weithio gyda dioddefwyr a'r plentyn neu berson ifanc i ennill y buddion mwyaf priodol i gyfiawnder adferol.

**Achos eglurhaol**

Fel rhan o iawn anuniongyrchol, dewisodd ferch ifanc gyda hanes cynyddol o droseddu, adrodd barddoniaeth i gr□p o bobl â nam ar eu llygaid. Wedi ei heffeithio gan y profiad hwn ac ymateb positif ei chynnulleidfa, daeth yn nyrs hyfforddedig.

**Achos eglurhaol**

Roedd yr YJS yn benderfynol o adeiladu perthynas â dyn ifanc a oedd yn amharod i ufuddhau i'w orchymyn. Penderfynasant iddo gyflawni ei iawn yn Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn yn y Trallwng, lle bu iddo gyfarfod â Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ac ymddangosodd ei gyfranogiad yn 'the Otter', newyddlen Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn. Roedd ei bresenoldeb yn gam mawr ymlaen yn nhermau ei ymrwymiad â'r YJS ac, er bod ufuddhau o hyd yn broblem, mae gwellliant wedi bod ers ei brofiad o'r iawn.

3.4. Lle trosglwyddwyd achosion, roedd llai o sicrhad byddai ymyriadau o ansawdd da. Canfuom mai yn chwe achos allan o ddeg lle oedd y plentyn neu'r person ifanc un ai wedi ei symud rhwng ardaloedd neu i Ymddiriedolaeth Brawf, nid oedd gweithio ar y cyd yn effeithiol mewn sicrhau yr oedd parhad mewn gwasanaethau'n cael eu cyflenwi i ateb eu tebygrwydd o ail-droseddu. Weithiau roedd hyn oherwydd diffyg cytundeb clir ar faterion amseru neu gyfrifoldebau. Mewn un achos, roedd un person ifanc a oedd wedi cael ei achos ei drosglwyddo i'r gwasanaethau prawf heb ei gynnwys yn ystyrlon mewn trafodaethau ac wedi derbyn rhy ychydig o wybodaeth i helpu gyda'r trawsnewid.

3.5. Mewn perthynas â'r achos cystodaeth, roeddem yn falch o ganfod y cyflenwyd hyn fel rhan o un ddedfryd integredig. Roedd y person ifanc wedi ei gynnwys mewn ystod o ymyriadau, gyda chysondeb gweithwyr ac ymyriadau oddi mewn i'r sefyllfa cystodol a thrwy'r rhan gymunedol o'r ddedfryd.

## 4. Canlyniadau cychwynnol

4.1. Gwnaeth nifer o blant a phobl ifanc symud yn eu blaenau'n dda mewn ateb ffactorau allweddol a oedd yn gysylltiedig â'r tebygrwydd ohonynt ail-droseddu, yn arbennig mewn perthynas â'u hagweddau cyffredinol amdanynt eu hunain a throseddu, ond hefyd mewn perthynas â'u hiechyd corfforol, ETE a cham-ddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd allweddol cysylltiedig ag iechyd emosiynol a meddwl y plentyn neu berson ifanc a threfniadau byw a theuluol a phersonol lle nad oedd dilyniant digonol wedi bod.

4.2. Gwelsom enghreifftiau o waith da gan weithwyr YJS i gynnal canlyniadau positif yn dilyn terfyniad dedfryd y plentyn neu berson ifanc, er enghraifft, rheolwyr achos yn arbrofi ac atgyfnerthu strategaethau a ddysgwyd yn ystod y ddedfryd. Yn ychwanegol, cynnigwyd cyswllt â'r nyrs iechyd meddwl, Gyrfaoedd neu CAIS ar sail barhaus ac mewn un achos parhaodd dyn ifanc â phrosiect hir dymor gyda CAIS i godi ymwybyddiaeth o gam-ddefnyddio cyffuriau.

4.3. Roedd y plentyn neu berson ifanc wedi lleihau'r amlder eu troseddu mewn bron i ddwy ran o dair o'r achosion a arolygwyd ac, mewn mwy na hanner yr achosion, difrifoldeb eu troseddu.

## 5. Arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth

5.1. Barnom fod gan reolwyr achos ddealltwriaeth ddigonol o'r egwyddorion o ymarfer effeithiol i leihau'r tebygrwydd byddai plant a phobl ifanc yn ail-droseddu.

5.2. Cefnogwyd y gweithwyr CAIS a'r nyrs iechyd meddwl gan eu cyrff proffesiynol allanol ac roeddynt yn gallu cael mynediad at yr goruchwyliaeth glinigol oedd ei hangen, cyngor, adnoddau a hyfforddiant i gynnal a datblygu eu sgiliau proffesiynol. Roedd gan weithwyr addysgol yr YJS a'r gweithiwr prawf a secondwyd goruchwyliaeth fisol gyda rheolwyr YJS ond nid oedd ganddynt yr un lefel o gefnogaeth gan eu cyrff proffesiynol ac ni chynigwyd hyfforddiant iddynt ochr yn ochr â'u cyd-weithwyr proffesiynol i'w helpu datblygu yn eu meysydd arbenigol.

5.3. Ar lefel weithredol, yr oedd gweithwyr YJS yn ymgysylltu'n dda ag ystod eang o bartneriaid i ymestyn y cyfleoedd dysgu i blant a phobl ifanc. Roedd ganddynt gysylltiadau da ag unedau cyfeirio disgyblion, darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith ac ysgolion i hyrwyddo rhaglenni a anelwyd at leihau ymddygiad troseddol,

ac wedi cael mesur o lwyddiant – mewn un ysgol roedd y gyfradd o waharddiadau wedi disgyn. Roeddynt hefyd wedi gweithio'n effeithiol ag Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn ddiweddar ar brosiect i arbrofi a fyddai ymyraeth gynnar yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar lefel strategol, roedd partneriaethau mewn perthynas ag ETE heb eu datblygu; yr oedd diffyg darpariaeth hyfforddiant o ansawdd da ar gyfer plant h□n a phobl ifanc a dim asesiad o effaith ail-drefnu Gyrfa Cymru. Er enghraifft, nid oedd Gyrfa Cymru yn darparu, caffael nac asesu risg lleoliadau seiliedig ar ddysgu yn y gweithle mwyach.

5.4. Roedd gan YJS fynediad at ystod o gyfleoedd ariannu ar y cyd, a gwnaeth ddefnydd da o'r rhain i helpu galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at ymyriadau priodol. Roedd enghreifftiau diweddar yn cynnwys gweithwyr yn ceisio am ac yn derbyn arian ychwanegol gan y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, y Panel Atebion Adnoddau Lleol a'r Bartneriaeth Dysgu 14-19, i dalu am y costau yswiriant o ddyn ifanc yn ymgymryd â gwaith ar fferm; yr oedd un arall yn cynnwys sicrhau arian a Fforwm Cam-drin yn y Cartref i alluogi person ifanc i fynychu cwrs ar gam-drin yn y cartref.

5.5. Roedd gweithio mewn partneriaeth yn cynhyrchu rhywfaint o ganlyniadau llwyddiannus i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid oedd wedi ei selio'n ddigonol gan brotocolau a chytundebau lleol, gweithredol a fyddai'n galluogi asiantaethau i fod yn glir yngl□n â'u cyfrifoldebau a rolau, a chyda'r hyn y gallent fod yn atebol i'w gilydd.

**Achos eglurhaol**

Mewn un achos a adolygwyd, roedd amgylchiadau'r person ifanc wedi arwain at y canlyniad iddo gael ei gyfeirio at wasanaethau cymdeithas, oherwydd iechyd, am asesiad cychwynnol. Roedd y ffaith bod cyfeiriad wedi digwydd at wasanaethau cymdeithasol ei riportio gan asiantaethau eraill, gan gynnwys yr YJS, fel darparu sicrwydd bod materion diogelwch posibl wedi eu hateb. Fodd bynnag, roedd y person ifanc wedi gwrthod ymgysylltu yn yr asesiad a bod gwasanaethau cymdeithasol wedi cau'r achos. Nid oedd yn glir os oedd gwybodaeth wedi ei rhannu â'r gweithwyr perthnasol. Er enghraifft, yr oedd gwybodaeth bod posibilrwydd o drais oddi mewn i'r cartref. Gallai asiantaethau eraill hefyd bod yn dal gwybodaeth nad oedd yn wybyddus i'r gwasanaethau cymdeithasol. Yn yr achos hwn, aer bod yr asiantaethau i gyd yn cydnabod bregusrwydd posibl y person ifanc, nid oedd cyfathrebu rhwng asiantaethau i'w ddiogelu yn effeithiol.

5.6. Roedd dryswch o gwmpas y protocol ar gyfer trefniadau trosglwyddo i Blant Mewn Gofal. Er bod cyngor ymarfer newydd i'w gyhoeddi'n fuan, mae Protocol Cenedlaethol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) ar gyfer Cyfrifoldeb Achosion cyfredol yn datgan ei fod yn berthnasol i Loegr yn unig, deallwn ei fod yr un mor berthnasol i Gymru. Nid oedd hyn, wrth reswm, yn wybyddus yn eang gan yr asiantaethau perthnasol ym Mhowys. Mae'r ddogfen yn datgan yn glir bod anghenion pobl ifanc o'r pwys mwyaf ac mae rhaid i'w buddiannau gorau aros yn flaenoriaeth.

5.7. Profodd YJS gryn anhawster mewn derbyn gwybodaeth oddi wrth awdurdodau lleol eraill nad oedd yn glynu wrth y canllaw hwn ar blant a phobl ifanc yn symud i mewn i Bowys. Drwy gael eu cefnogi gan y cyngor sir a'r bwrdd iechyd lleol, mae'r YJS wedi gwneud ymdrech glew i atebion materion fel roeddynt yn codi ar sail achos wrth achos. Roedd yr YJS yn gallu trafod materion yn yr is-gr□p Trefniadau Gofal Diogel a Sefydlog a'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol (LSCB). Yn ychwanegol,

roedd penaethiaid adrannau perthnasol Cyngor Sir Powys wedi ceisio datrys pryderon ar lefel uwch. Fodd bynnag, roeddynt i'w gweld yn anabl i brysuro llif cyflymach o wybodaeth o awdurdodau eraill ac nid oedd gan yr YJS unrhyw drefniadau na pholisi cefnogol mewn lle i ymgymryd â'u hasesiadau eu hunain o blant a phobl ifanc a oedd yn cyrraedd ym Mhowys heb y dogfennau perthnasol. Roeddem yn bryderus ynglŷn ag effaith hyn.

**Achos eglurhaol**

Mewn un achos, roedd dyn ifanc a oedd wedi ei riportio fel person a oedd yn arddangos risg uchel o niwed i eraill, ac a oedd â phroblem o gam-ddefnyddio sylweddau ac o bosibl problem iechyd meddwl, wedi ei osod mewn cartref gofal ym Mhowys nad oedd o bosibl yn cwrdd â'i anghenion. Cyngorasid gweithwyr YJS am ei ymddygiad treisgar, ac i ddechrau roeddynt yn gyndyn i ymgysylltu ag ef hyd iddynt dderbyn y dogfennau trosglwyddo perthnasol. Ar adeg yr arolygiad, roedd wedi bod ym Mhowys am bum mis heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r YJS na gwasanaethau priodol eraill.

5.8. Nid oedd protocol a gytunwyd trwy Bowys draw i gefnogi trosglwyddo achosion i Ymddiriedolaethau Prawf. Yn gynharach, roedd wedi bod un Uned Gyflenwi Leol (LDU) ar gyfer y sir i gyd, a chyfarwyddyd ymarfer a gytunwyd ar gyfer trosglwyddiadau. Fodd bynnag, erbyn amser yr arolygiad hwn, roedd dwy LDU. Roedd un o hyd yn glynu wrth y cyfarwyddyd ymarfer; roedd y llall wedi cyflwyno fframwaith trosglwyddo newydd a oedd eto i'w gytuno â'r YJS. O ganlyniad, roedd materion o gyfathrebu ac oedi wedi arwain at fylchau sylweddol yn y ddarpariaeth o wasanaeth i bobl ifanc yn cael eu trosglwyddo i'r LDU hwn.


5.9. Roedd y staff a gyfwelwyd yn ystod yr arolygiad hwn yn ystyried bod gan reolwyr YJS y sgiliau a'r wybodaeth i'w cefnogi nhw gyda, ac i'w helpu gwella ansawdd eu gwaith. Nid oeddem yn rhannu eu hyder bod trefniadau sicrwydd ansawdd yn gweithio'n effeithiol. Canfuom dystiolaeth eu bod wedi gwneud gwahaniaeth positif mewn ond 7 achos allan o 18 lle byddai oruchwyliaeth gan reolwyr yn briodol. Mae hyn oherwydd er bod y trefniadau mewn lle i ateb y problemau hyn, nid oedd y canlyniadau'n arwain at welliannau'n ymarferol.

## Crynodeb

*At ei gilydd, roedd gwaith i leihau ail-droseddu'n dda.* Tra oedd yr asesiadau a gwblhawyd ar amser y dechreuodd y plentyn neu berson ifanc ei ddedfryd o ansawdd amrywiol, fe'u hadolygwyd yn briodol trwy gydol y gorchymyn. Fodd bynnag, roedd bylchau yn berthnasol i'r asesu a chynllunio am iechyd emosiynol a meddwl. Rhoddwyd sylw cyfartal i gyflenwi ymyriadau priodol yn effeithiol i blant a phobl ifanc. Arddangosodd gweithwyr achos ymrwymiad i sicrhau yr oeddynt yn gallu cael mynediad at adnoddau amrywiol a phriodol ac, o ganlyniad, gyflawni ystod o ganlyniadau positif. Roedd yr YJS wedi datblygu perthnasau positif ag asiantaethau partner ond nid oedd systemau mewn lle i sicrhau diffiniad clir o rolau a chyfrifoldebau, a oedd ag effaith negyddol, yn enwedig ar achosion trosglwyddo. Nid oedd goruchwyliaeth gan reolwyr wedi gwella ansawdd y gwaith i leihau'r tebygrwydd byddai'r plentyn neu berson ifanc yn ail-droseddu'n ddigonol.

**Crynodeb o'r Data**

Mae'r siart canlynol yn crynhoi'r data o rhai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [DS: Arolygwyd 23 o achosion. Fodd bynnag, gall y cyfanswm o atebion beidio â bod yn gyfartal i hyn, gan gall rai cwestiynau fod yn amherthnasol mewn rhai achosion ]



# Thema 2: Diogelu'r Cyhoedd

**Beth roeddem yn disgwyl ei weld**

Mae gan ddioddefwyr a dioddefwyr posibl troseddau’r hawl i ddisgwyl gwneir popeth rhesymol i reoli'r risg o niwed y peri plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Rydym yn disgwyl gweld asesiad o ansawdd da a chynllunio gyda chyflenwi ymyriadau priodol, ac arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth sy'n lleihau'r risg o niwed i eraill.

**Sgôr asesiad achos**

Oddi mewn i asesiad yr achos, at ei gilydd roedd 59% o'r gwaith a wnaethpwyd i ddiogelu'r cyhoedd wedi ei wneud yn ddigon da.

**Canfyddiadau Allweddol**

1. Roeddem yn disgwyl i YJS Powys fod wedi ymgymryd ag asesiad cychwynnol o faterion ac anghenion yn ymwneud â'r risg o niwed y parodd blentyn neu berson ifanc yn 21 o'r achosion yr arolygwyd gennym. Mewn dros un rhan o dair o'r rhain, nid oedd yr asesu wedi ei gwblhau'n ddigon da. Roedd hefyd bylchau sylweddol yn y broses adolygu ac yr oedd asesiadau wedi eu hadolygu i safon digon uchel mewn llai na hanner.
2. Yn nhua hanner yr achosion yr edrychon arnynt, adnabuom faterion yn berthnasol i risg o niwed i eraill a oedd angen cynllunio amdanynt, eu rheoli a'u hateb. Canfuom fod cynllunio yn ddigonol mewn hanner o'r rhain yn unig ac roeddent wedi eu hadolygu i safon digon uchel mewn hyd yn oed llai.
3. Er nad yw'r YJS ddim bob tro yn gweithredu'r cynllun, cyflenwyd ymyriadau angenrheidiol er mwyn rheoli'r risg o niwed i eraill ym mron i dri chwarter o achosion. Roedd gan staff fynediad at ystod o adnoddau o ansawdd da.
4. Roedd ansawdd y gwaith i reoli'r risg o niwed i eraill yn amrywiol.
5. Er gwaethaf ymdrechion positif i wella systemau i reoli'r risg o niwed i eraill ers arolygiad olaf Arolygiaeth Prawf EM, nid oedd goruchwyliaeth y rheolwyr yn ddigon effeithiol i sicrhau bod y gwaith hwn o ansawdd digon da.
6. Roedd enghreifftiau o weithio da mewn partneriaeth ond roedd y diiffyg cytundeb ar rolau a chyfrifoldebau yn gadael bylchau sylweddol ar gyfer achosion o drosglwyddo.
7. At ei gilydd, roedd risg o niwed i eraill yn debygol o gael ei reoli'n well mewn achosion nad oedd yn ymwneud â throsglwyddiad neu blentyn neu berson ifanc mewn gofal awdurdod lleol.

**Eglurhad o'r canfyddiadau**

**1. Asesiad**

1.1. Roedd nifer o achosion a oedd yn cael eu rheoli gan YJS Powys wedi cael cwblhau eu hasesiad cychwynnol gan YOT arall. Ystyriom nad oedd angen newid ymhellach i ddau o'r rhain gan dîm Powys. O'r 21 o achosion a oedd yn weddill, roedd asesiad digonol o'r risg o niwed i eraill y dangosai'r plentyn neu berson ifanc mewn 13. Lle oedd bylchau yn yr asesiad roedd y rhain yn aml yn berthnasol i beidio â chymryd sylw digonol o ddioddefwyr, anwybyddu ymddygiad perthnasol fel troseddau blaenorol, dim yn tynnu'n ddigonol ar wybodaeth ar gael o

asiantaethau eraill, neu beidio ag asesu plant a phobl ifanc yn symud i mewn i'r ardal yn ystod eu dedfryd yn ddigonol. Mewn tri achos, nid oedd unrhyw asesiad o risg o niwed i eraill.

1.2. O ystyried natur ddeinamig y risg o niwed, roeddem yn disgwyl gweld adolygiad ystyrlon o risg o niwed i eraill ar ysbeidiau cyfnodol, neu ar ôl digwyddiad arwyddocaol ym mywydau'r plant a phobl ifanc. Dylai adolygiad wedi digwydd mewn 18 o achosion; mewn ond wyth o'r rhain yr oedd adolygiad wedi ei ymgymrwyd ag ef yn ddigonol. Mewn rhai, roedd yr adolygiad yn gopi o'r asesiad gwreiddiol nad oedd wedi ei ddiweddaru'n ddigon da. Canfuom hefyd enghreifftiau lle nad oedd adolygiad ar ôl i blentyn neu berson ifanc arddangos arwyddion o ymddygiad troseddol pellach.

## 2. Cynllunio ar gyfer ymyriadau

2.1. Roedd deg achos lle oedd angen rheoli materion o risg o niwed i eraill. Canfuom gynllunio digonol i gefnogi hyn mewn pump. Mewn llawer, nid oedd cysylltiadau wedi eu gwneud â'r cynlluniau a gedwir gan asiantaethau partner, weithiau gan fod, er gwaethaf ymdrechion yr YJS, nid oeddynt yn gallu cael mynediad atynt. Nid oedd y cynlluniau a luniwyd gan reolwyr achos yr YJS yn berthnasol i'w hasesiad o risg yn cynnwys digon o fanylion, neu eu bod wedi ceisio proffwydo neu gynllunio am newidiadau posibl yn y risg o niwed bob tro. Nid oedd thai cynlluniau rheolaeth wedi eu diweddaru'n ddigonol ar ôl y ddedfryd, tra bod eraill yn sylwebaeth o'r plentyn neu berson ifanc yn hytrach na chynllun. Yn yr achos cystodaeth, yr oedd cynllunio digonol i ateb y risg o niwed i eraill yn ystod y cyfnod o gystodaeth.

2.2. Roedd dau achos lle dylai Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) fod wedi eu rhoi ar waith. Roedd un yn enghraifft o drefniadau MAPPA yn gweithio'n dda i wneud gwahaniaeth, tra roedd rheoli'r llall yn achos pryder i ni.

**Achosion eglurhaol**

Gwnaethpwyd cyfeiriad priodol i MAPPA mewn achos cystodaeth cymhleth a gynhwysai person ifanc a oedd wedi ei gollfarnu o drosedd dreisgar, ac a ystyriwyd, gallai o hyd beri risg difrifol i eraill. Mynychodd yr holl asiantaethau partner perthnasol nifer o gyfarfodydd MAPPA, yn dilyn dull o weithredu amlasiantaethol effeithiol i ddiogelu dioddefwyr a'r cyhoedd ac i sicrhau bod mesurau mewn lle i leihau'r posibilrwydd o ail-droseddu.

Mewn achos arall, ar dderbyn cyngor y cyd-lynydd MAPPA, ni wnaethpwyd cyfeiriad gan yr YJS. Roedd yr achos hwn yn ymwneud â pherson ifanc a oedd wedi ei roi ym Mhowys gan awdurdod lleol arall. Roedd ei droseddu wedi bod yn cynyddu mewn difrifoldeb, amlder a lefel o drais dros nifer o flynyddoedd ac roedd ymdrechion niferus i'w roi mewn llety a fyddai'n cwrdd â'i anghenion wedi bod yn aflwyddiannus. Fe'i haseswyd o 'risg uchel o ail-droseddu a risg uchel o niwed' a bu iddo gwrdd â'r trothwy ar gyfer cyfeiriad MAPPA Categori 3. Erbyn amser yr arolygiad, roedd wedi bod yn yr ardal am bedwar mis. Rydym yn deall bod yr YJS bellach wedi cymryd camau i wella hyn.

2.3. Roedd 14 achos lle byddai wedi bod yn briodol i adolygu'r risg o niwed i eraill. Mewn nifer bach o'r rhain nid oedd unrhyw adolygiad. Lle ymgymerwyd ag adolygiadau, roedd rhai o ansawdd annigonol ac nid oedd rhai'n arwain at unrhyw newid ystyrlon i'r cynllun.

## 3. Cyflenwi ymyriadau

3.1. Mewn 11 achos roedd angen cyflenwi ymyriadau i reoli'r risg o niwed, ymgymerwyd â'r gwaith iawn mewn wyth. Mewn rhai, roedd rheolwyr achos wedi cymryd gofal arbennig i sicrhau y cyfarfuwyd ag anghenion amrywiaeth y plentyn neu'r person ifanc er mwyn ehangu canlyniadau; er enghraifft, defnyddiwyd yr holiadur dulliau o ddysgu i deilwra'r gwaith o reoli dicter. Ar y cyfan, roedd gan reolwyr achos fynediad at adnoddau digonol i ymgymryd â'u gwaith. Lle oedd bylchau, roedd y rhain gan fwyaf yn berthnasol i'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd emosiynol neu feddwl arbenigol neu ymyriadau'n ymwneud â threfniadau teuluol a phersonol.

3.2. Roedd maint baich achos YJS Powys wedi ei gyfyngu gan yr ystod o raglenni lleol a allai gael eu rheoli ond gwelson nifer o enghreifftiau o ymarfer nodedig, rhai mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, er mwyn cyflenwi ymyriadau priodol.

**Achos eglurhaol**

Roedd yr YJS wedi gwneud y penderfyniad i beidio â pharhau â'r Prosiect Tân Phoenix oherwydd yr oedd yr anhawster o lenwi llefydd ar y cwrs yn effeithio ar lwyddiant y rhaglen. Trwy weithio â'r Gwasanaeth Tân i ddatrys y broblem hon, cytunwyd byddai Diogelwch Tân (Fire Safe) yn cael ei gyflenwi ar sail unigol gyda'r plant a'r bobl ifanc hyn yn elwa o hyn.

3.3. At ei gilydd, roedd rheolaeth weithredol ac effeithiol o risg o niwed trwy gydol cyflenwi'r ymyriadau mewn 6 allan o'r 11 achos lle oedd angen hyn yn unig. Roedd y bylchau allweddol nid yn unig yn berthnasol i ddiffygion yn y brosesu o adolygu ond hefyd i flaenoriaeth annigonol yn cael ei roi i risg o niwed. Mewn rhai achosion, nid oedd y rheolwr achos yn adnabod nac ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc a allai effeithio ar y risg o niwed a ddangosai i eraill.

3.4. Bydd ansawdd cyd-weithio i gefnogi trosglwyddo achosion un ai i'r gwasanaeth prawf neu rhwng ardaloedd yn chwarae rôl bwysig mewn sicrhau parhad trefniadau i reoli risg o niwed i eraill. O'r deg achos a drosglwyddwyd, roedd wyth lle oedd yn bwysig sicrhau cyfnewid llyfn rhwng systemau i ateb y risg o niwed ac mewn tri digwyddodd hyn. Ym mhob un o'r trefniadau trosglwyddo hyn lle ni fu trosglwyddo llyfn, nid oedd trefniant rhwng asiantaethau ar gyfer amseru a chyfrifoldebau.

## 4. Canlyniadau cychwynnol

4.1. Ni hyrwyddwyd y risg o niwed i ddioddefwyr mor dda ag y dylai bob tro. Mae rhywfaint o hyn yn berthnasol i ansawdd yr asesiad a chynllunio o gwmpas anghenion dioddefwyr, ond mewn rhai achosion, ni ymgymerodd yr YJS â'r gwaith y dylai, neu a fwriadodd ei wneud.

4.2. At ei gilydd, barnom fod yr YJS wedi gwneud digon i gadw i leiafswm y risg o niwed y plentyn neu berson ifanc mewn 7 achos allan o 11 lle oedd hyn yn berthnasol.

## 5. Arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth

5.1. Ar y cyfan, roedd gan reolwyr achos ddealltwriaeth ddigonol o bolisïau a threfniadau lleol er mwyn rheoli'r risg o niwed i eraill. Roedd ymdrech gref wedi bod i wella ymarferiadau ers ein harolygiad diwethaf, gyda chyflwyniad o ganllaw ysgrifenedig, hyfforddiant i'r staff ac ystod o fesurau sicrwydd ansawdd.

5.2. Cyfeiriwyd achosion lle ystyriwyd bod y plentyn neu berson ifanc yn arddangos risg uchel o niwed i eraill at y Fforwm Cynllunio Achosion (CPF). Mynychwyd cyfarfodydd gan asiantaethau partner priodol yn rheolaidd ac roedd y CPF yn effeithio wrth ddarparu ymarferwyr â chyfeiriad a'u cefnogi yn eu gwaith. Defnyddiodd aelodau, fel heddwas yr YJS, y fforwm yn effeithiol i gasglu a dosbarthu gwybodaeth.

5.3. Er gwaethaf y mesurau hyn, yr oedd bylchau sylweddol o hyd mewn rheoli'r risg o niwed i eraill. Roedd rhai 'yn hawdd eu datrys', mewn perthynas â chwblhau'r asesiadau a chynlluniau. Roedd eraill yn ymwneud â materion mwy cymhleth, yn aml yn cynnwys diffygion mewn cyfathrebu rhwng partneriaid a chyd-weithio, gyda'r posiblrwydd o fethu gweld materion sylweddol. Roedd y diffyg polisi mewn perthynas â chynnal asesiad ai peidio a phryd ar blant a phobl ifanc oedd yn cyrraedd y sir yn ystod eu dedfryd yn effeithio ar ansawdd y gwasanaeth yn y maes hwn.


5.4. Ar adeg yr arolygiad, roedd heddlu a gwasanaethau prawf Powys yn bwriadu mabwysiadu trefniadau Rheolaeth Troseddwr Integredig (IOM) yn y dyfodol agos. Mae'r cynllun hwn yn darparu fframwaith cyffredinol sy'n galluogi asiantaethau lleol i weithio â'i gilydd i gyd-lynu adnoddau a llywodraeth bresennol er mwyn rheoli troseddwyr sydd ar risg uchel o achosi niwed difrifol i eraill neu o ail-droseddu. Nid oedd yr YJS yn rhagweld cyfeirio unrhyw un o'u plant a phobl ifanc at y panel IOM, gan fod gwell ganddynt reoli'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'u troseddu trwy'r CPF. Fodd bynnag, roedd wedi gwneud cysylltiadau positif â'r broses, roedd wedi bod yn rhan o ddatblygu IOM Powys, ac roedd wedi cynnig gwaith gyda phant yr oedolion ar y cynllun i helpu ateb ffactorau a allai arwain iddynt droseddu. Bydd hefyd yn gweithio i sicrhau y rhennir gwybodaeth ar draws pob asiantaeth sy'n gweithio â'r un teuluoedd. Credwn ei bod o fudd i dîm reoli'r YJS hefyd i archwilio'r risgiau a'r manteision o IOM mewn perthynas â'r bobl ifanc sydd yn symud i wasanaethau oedolion.

## Crynodeb

*At ei gilydd, roedd gwaith i ddiogelu'r cyhoedd a dioddefwyr go iawn neu bosibl yn anfoddhaol.* Ni roddwyd blaenoriaeth ddigonol i'r risg o niwed yr arddangosai plentyn neu berson ifanc i eraill ac nid oedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn ddigon effeithiol i sicrhau bod gwaith i ddiogelu'r cyhoedd a dioddefwyr o ansawdd digon da. Nid oedd rheolwyr achos yn cydnabod bob tro newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc a ddylai wedi sbarduno adolygiad o sut oedd yr achos yn cael ei reoli, na thalu digon o sylw i reoli risgiau i ddioddefwyr. Chwaraeodd CPF rôl weithredol ac effeithiol wrth arwain cyfeiriad a gweithredu yn cynnwys plant a phobl ifanc a gydnabuwyd fel rhai a ymddangosai risg uchel o niwed i eraill. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion, yn arbennig y rhai oedd yn cynnwys trosglwydiad, nid oedd yr YJS yn sicrhau yr oedd digon o gyd-weithio a chyfathrebu digonol rhwng asiantaethau partner. Gwelsom rywfaint o waith da yngl□n â rhoi ymyriadau ar waith, a chymerodd rhywfaint ohonynt anghenion penodol ac unigol y plentyn neu'r person ifanc i ystyriaeth.

## Crynodeb o'r Data

Mae'r siart isod yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr adolygiad o achosion. [DS: Arolygwyd 23 o achosion. Fodd bynnag, gall y cyfanswm o atebion beidio â bod yn gyfartal i hyn, gan gall rai cwestiynau fod yn amherthnasol mewn rhai achosion ]



# Thema 3: Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc

**Beth roeddem yn disgwyl ei weld**

P'run ai yw bregusrwydd plant a phobl ifanc oherwydd canlyniadau eu hymddygiad eu hunain neu ymddygiad eraill; rydym yn disgwyl gweld eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel a lleiheir eu bregusrwydd. Dylai hyn fod drwy asesu o ansawdd da a chynllunio gyda chyflenwi ymyriadau priodol, arweinyddiaeth bositif a rheolaeth, a chyfraniad effeithiol at drefniadau diogelu plant amlasiantaethol.

**Sgôr asesiad achos**

Oddi mewn i asesiad yr achos, at ei gilydd roedd 53% o'r gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc a lleihau eu bregusrwydd wedi ei wneud yn ddigon da.

**Canfyddiadau Allweddol**

1. At ei gilydd, nid oedd yr YJS wedi gwneud digon i gadw'r plentyn neu berson ifanc yn ddiogel.
2. Roedd asesiadau o fregusrwydd y plentyn neu'r person ifanc, a'u hanghenion diogelu, yn fwy tebygol o fod o ansawdd da mewn PSRau nac yn y rhai a ysgrifennwyd ar ddechrau'r ddedfryd.
3. Canfuom fylchau sylweddol mewn asesiadau o fregusrwydd a dioogelu'r cynllunio i ateb y rhain, ac yn ansawdd adolygiadau.
4. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd adnoddau ar gael i helpu reoli bregusrwydd a diogelu'n effeithiol, ond cyflenwyd ymyriadau priodol mewn ond dros hanner o achosion.
5. Roedd amrywiaeth o grwpiau amlasiantaethol, byrddau a gweithwyr arbenigol wedi ymroddi i ddiogelu plant a oedd wedi cynhyrchu ystod o ganlyniadau positif. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, yn aml y rhai oedd yn ymwneud â phlant neu bobl ifanc bregus iawn, nid oedd ymgysylltu digonol rhwng asiantaethau a/neu gweithwyr arbenigol i sicrhau bod mesurau diogelu effeithiol mewn lle.
6. Roedd yr YJS, y cyngor sir ehangach a'r bwrdd iechyd lleol wedi gweithio'n galed ar sail achos wrth achos i wella'r llif o wybodaeth ar gyfer achosion a oedd yn cynnwys plant mewn gofal, a drosglwyddwyd rhwng ardaloedd. Fodd bynnag, barnwyd gennym fod y plant a'r bobl ifanc hyn mewn nifer o achosion wedi derbyn cyflenwad o wasanaeth o ansawdd wedi ei leihau mewn perthynas â diogelu.
7. Nid oedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn sicrhau yn effeithiol bod y gwaith i reoli bregusrwydd a diogelu o safon digon uchel.

**Eglurhad o'r canfyddiadau**

**1. Asesiad**

1.1. Canfuom fod asesiadau PSR yn fwy tebygol o fod o ansawdd da na'r rhai a ysgrifennwyd ar gychwyn y ddedfryd. At ei gilydd, roedd asesiad digonol o fregusrwydd a diogelu mewn 12 achos allan o'r 21 lle dylid wedi ymgymryd ag asesiad. Roedd nifer o feysydd angen eu gwella, gan gynnwys bod yn glir am lefel a natur y bregusrwydd, a'r angen i dynnu ar y wybodaeth ar gael, un ai o asiantaethau eraill neu'n berthnasol i ymddygiad ehangach y plentyn neu'r person

ifanc. Mewn tri achos, roedd asesiad anigonol yn dilyn trosglwyddiad i mewn o ardal awdurdod lleol arall. Tra dylai'r awdurdod lleol fod wedi darparu asesiad diweddar, cywir ar adeg y trosglwyddo, roeddem yn ystyried, lle nad oedd hyn wedi digwydd, roedd gan YJS Powys y cyfrifoldeb i sicrhau bod anghenion bregusrwydd a diogelu'r plant a'r bobl ifanc yr oeddynt yn gweithio â nhw wedi eu hasesu'n ddigonol er mwyn eu cadw'n ddiogel.

1.2. Gall lefelau o fregusrwydd newid yn sydyn, weithiau o ganlyniad i berthnasau newydd neu drefniadau byw newydd. Mewn gormod o achosion yr edrychon arnynt, nid oedd unrhyw adolygiad o fregusrwydd a diogelu ar ôl digwyddiad o'r fath. O'r adolygiadau a oedd wedi eu cwblhau, roedd bron i un rhan o dair yn gopïau o asesiadau blaenorol heb ddiweddariad digonol.

**Achos eglurhaol**

Newidiodd un dyn ifanc bregus 17 oed ei gyfeiriad er mwyn byw â pherson llawer hyn, a gydnabuwyd fel cam-ddefnyddiwr sylweddau. Gofynnodd y rheolwr achos am wybodaeth gan heddwas yr YJS, gwasanaethau prawf a gwasanaethau cymdeithasol, am risgiau posibl i'r person ifanc. Pan brofwyd bod canlyniadau'r gwiriadau'n negyddol, derbyniodd y rheolwr achos hwn, ac ni chymeroddd unrhyw weithgaredd pellach i sicrhau byddai materion posibl yn ymwneud â diogelu'n cael eu nodi, eu dadansoddi a'u hateb. Ni adolygasant eu hasesiad a chynlluniau na chwilio am wybodaeth bellach gan y person ifanc na'r oedolyn gyda'r hwn yr oedd bellach yn byw.

## 2. Cynllunio ar gyfer ymyriadau

2.1. Canfuom fod bod cynllunio digonol mewn lle i ateb bregusrwydd a diogelu mewn 7 achos allan o'r 17 a oedd ei angen. Nid oedd cynlluniau rheoli bregusrwydd wedi eu drafftio bob tro lle dylent fod wedi eu gwneud a, lle oedd cynllun yn bodoli, nid oedd digon o'r rhain o ansawdd da. Hepgorodd rai meysydd sylweddol o fregusrwydd, cynhwysodd rai dim digon o fanylion ar beth oedd angen ei wneud a chan bwy, neu a roddodd ond ychydig o sylw i broffwydo ac ateb newidiadau posibl a threfniadau partneriaeth. Mewn rhai achosion roedd cynllunio annigonol mewn perthynas â threfniadau gofal y plentyn neu'r person ifanc neu'i iechyd emosiynol a meddwl.

2.2. Yn yr achos cystodaeth, roedd cynllunio digonol mewn lle trwy gydol y cyfnod o gaethiwed ar gyfer gwaith i ateb bregusrwydd a diogelwch.

2.3. Byddwn yn disgwyl gweld cynlluniau, i gadw'r plentyn neu berson ifanc yn ddiogel neu i reoli meysydd bregusrwydd, yn cael eu hadolygu i adlewyrchu amgylchiadau newydd neu, mewn dull mwy adlewyrchol, i sicrhau bod cynlluniau cyfredol o hyd yn berthnasol. Canfuon mai ond 4 allan o 13 gynllun oedd angen adolygiad a'u hadolygwyd yn ddigon da. Er ymgymerwyd ag adolygiadau bron bob tro, nid oeddynt o ansawdd digonol. Roedd rhai cynlluniau'n gopïau o rai gwreiddiol nas diweddarwyd i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau, tra bod eraill wedi eu diweddaru, ond i gofnodi dilyniant yn erbyn nodau'n unig.

## 3. Cyflenwi ymyriadau

3.1. Yn ein barn ni, roedd yr YJS ac asiantaethau partner wedi cyflenwi'r ymyriadau iawn i ateb bregusrwydd a diogelwch mewn dim ond dros hanner o achosion (9 allan o 17) a oedd yn eu haeddu. Mewn llawer o'r rhain, nid oedd gweithwyr YJS wedi ymgymryd â'r gwaith y dylent. Mewn rhai, roedd hyn oherwydd nid oedd y rheolwr achos wedi adnabod yr anghenion iawn neu nid oedd wedi atgyfeirio, er enghraifft at wasanaethau gofal cymdeithasol plant neu am fewnbwn gwasanaeth iechyd emosiynol neu feddwl arbenigol . Tra, ar y cyfan, roedd gan reolwyr achos fynediad digonol at adnoddau i ateb anghenion diogelwch, fe nodon mai yn nhri achos nid oeddynt yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant priodol na gwasanaethau iechyd emosiynol a meddwl.

3.2. O'r deg achos a drosglwyddwyd, roedd wyth lle oedd yn bwysig i hyrwyddo parhad gwasanaethau i reoli diogelwch a phedwar lle nad oedd hyn wedi digwydd. Y broblem fwyaf oedd nad oedd cytundeb clir rhwng asiantaethau ar amseru na chyfrifoldebau. Mewn dau achos roedd diffyg cynnwys y plentyn neu berson ifanc yn eu trefniadau trosglwyddo.

3.3. Roedd rheolaeth weithredol ac effeithiol o ddiogelwch a bregusrwydd trwy gydol cyflenwi'r ymyriadau mewn dim ond dros un rhan o dair (chwech) o'r achosion a oedd yn ei haeddu. Mewn llawer nid oedd digon o flaenoriaeth wedi ei roi i waith diogelu. Roedd hefyd angen i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phartneriaid a oedd yn cyflenwi ymyriadau eraill ac i weithio'n fwy cynhyrchiol â gwasanaethau gofal plant.

## 4. Canlyniadau cychwynnol

4.1. Barnon fod yr YJS wedi gwneud digon i gadw'r person neu berson ifanc yn ddiogel, un ai ohonynt eu hunain neu o eraill, mewn 8 achos allan o 17 lle oedd hyn ei angen. Roedd blychau yn asesu a chynllunio. Roedd hefyd achosion pan nad oedd gweithwyr YJS wedi ymgymryd â'r gwaith dylent wedi ei wneud neu roeddynt wedi peidio ag ymgysylltu a chyd-lynu'n ddigon da ag asiantaethau a gweithwyr eraill.

## 5. Arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth

5.1. Roedden yn falch o weld, er nad oes dyletswydd i wneud hyn, bod y LSCB wedi cynnal is-gr□p Trefniadau Gofal Diogel a Sefydlog i gydnabod y ffaith bod gan Bowys nifer sylweddol o ddarparwyr annibynnol a phobl ifanc wedi ei gosod yn y sir gan awdurdodau lleol eraill. Mae'r is-gr□p hwn wedi ei ymestyn i ffocysu ar ansawdd y gofal a ddarperir i holl Blant Mewn Gofal ym Mhowys. Roedd yr YJS yn gallu defnyddio'r fforwm hwn i hysbysu'r LSCB yn uniongyrchol o faterion diogelu, yn arbennig lle oedd diffyg ymgysylltu â'r awdurdod cyfrifol. Gan gymryd proffil y lleoliadau allan o'r sir roedd yn aneglur pam nad oedd yr YJS wedi bod yn fwy rhagweithiol yn cynyddu'r pryderon diogelu drwy'r llwybr hwn a oedd yn berthnasol i un o'i achosion fwyaf heriol a chymhleth.

5.2. Roedd y LSCB hefyd wedi bod yn rhagweithiol mewn datblygu fforwm ar gyfer Plant Bregus yn Byw Oddi Cartref; roedd hwn yn hybu cyswllt â darparwyr annibynnol led-led Powys i annog gwell cyfathrebu mewn perthynas â lles plant a phobl ifanc a osodwyd ym Mhowys gan awdurdodau lleol eraill.

5.3. Yn gyffredinol, roedd gan reolwyr achos ddealltwriaeth ddigonol o bolisïau a threfniadau lleol ar gyfer rheoli trefniadau diogelu a gweithredu, ac roeddent yn

hyderus o blant mewn angen a throthwyau diogelwch plant. Roedd diogelu'n chwarae rhan o hyfforddiant cychwynnol yr awdurdod ac fe'i darparwyd wedyn fel rhan o ddatblygiad parhaus pob aelod o staff.

5.4. Ystyrion nad oedd goruchwyliaeth gan reolwyr oddi mewn i'r YJS wedi gwneud gwahaniaeth i ansawdd y gwaith i reoli bregusrwydd a diogelwch. Tra ein bod yn cydnabod bod systemau i sicrhau ansawdd trefniadau perthnasol, nid oedd y rhain yn ateb y bylchau yn yr asesiad a chynllunio'n ddigonol na sicrhau bod y gwasanaethau a'r ymyriadau a oedd eu hangen yn cael eu cyflenwi gan yr YJS neu eraill. Nid oedd pob rheolwr achos yr YJS yn ymwybodol o'r *Protocol a'r Gweithdrefnau rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a Gwasanaetha Plant*, ac ystyrion fod angen cryfhau'r dull holistig presennol i asesu cyfeiriadau o asiantaethau i wasanaethau cymdeithasol er mwyn adnabod materion YJS penodol, i sicrhau bod y llinell wedi ei thynnu yn ddwfn mewn perthynas â chyfrifoldebau a throthwyau.

5.5. Cefnogwyd trefniadau iechyd meddwl a cham-ddefnyddio sylweddau gan drefniadau partneriaeth effeithiol. At ei gilydd, darparodd y nyrs iechyd meddwl YJS a gweithwyr cam-ddefnyddio sylweddau yn CAIS gwasanaeth amserol a phriodol i blant a phobl ifanc, gan gynnig ymyriadau wedi eu selio ar dystiolaeth a oedd wedi eu targedu i ateb materion yn ymwneud â'u hiechyd a'u hymddygiad troseddol. Gweithiasant yn agos iawn â gweithwyr eraill YJS, mynychasant y CPF, a chawsant drafodaethau mynych am eu hachosion. Cyd-leolwyd gweithwyr CAIS â thîmau YJS yng Ngogledd a De’r sir. Darparodd y nyrs iechyd meddwl, er yn seiliedig gyda'r tîm yn y De, lefel gydradd o wasanaeth ar draws Powys. Fodd bynnag, canfuom nad oedd y dull positif a rhagweithiol hwn yn amlygu ei hun bob tro mewn canlyniadau effeithiol ac yr oedd bylchau mewn asesu, cynllunio a darparu, yn arbennig mewn perthynas ag iechyd emosiynol a meddwl.


5.6. Roedd dolennau cysylltiol da wedi eu gwneud ag asiantaethau partner ac yr oedd tystiolaeth o rai canlyniadau da ar gyfer y plant a'r bobl ifanc. Fodd bynnag, roedd angen cysylltiadau cryfach â rhai partneriaid, er enghraifft y gwasanaeth iechyd cynradd. Ar y cyfan, dibynodd yr effeithioldeb o gyd-weithio ar berthnasau da ac ewyllys da yn hytrach nag ar drefniadau systematig. O ganlyniad, roedd achosion lle nad oedd cyfathrebu mor effeithiol ag y dylai fod ac ni chydnabuwyd nac atebwyd anghenion rhai o'r plant mwyaf bregus yn ddigonol.

**Crynodeb**

*At ei gilydd, roedd gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc ac i leihau'u bregusrwydd yn anfoddhaol.* Nid oedd yr YJS wedi gwneud digon i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ac ystyrion nad oedd goruchwyliaeth gan reolwyr wedi gwneud gwahaniaeth digonol i ansawdd y gwaith yn y maes hwn. Roedd asesiadau â diffygion manylion angenrheidiol a dadansoddiad, ac roedd ansawdd cynllunio'n wael, yn arbennig, er enghraifft, mewn perthynas ag iechyd emosiynol a meddwl. Nid oedd rheolwyr achos yn sicrhau eu bod yn gweithredu'n briodol mewn digon o achosion i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc, na chymryd i ystyriaeth newidiadau yn eu hamgylchiadau. Weithiau nid oedd atgyfeiriadau i wasanaethau eraill yn cael eu gwneud lle bo’u hangem neu roedd bylchau mewn ymgysylltiad effeithiol ag asiantaethau eraill. Er bod yr YJS a'r cyngor sir ehangach wedi gweithio'n galed i geisio ateb y rhain, yr oedd materion arbennig yn ymwneud ag achosion a gynhwysai plant a oedd mewn gofal gan awdurdod lleol neu fod eu hachosion wedi eu trosglwyddo.

## Cryunodeb o'r Data

Mae'r siart isod yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod arolygiaeth yr achosion. [DS: Arolygwyd 23 o achosion. Fodd bynnag, gall y cyfanswm o atebion beidio â bod yn gyfartal i hyn, gan gall rai cwestiynau fod yn amherthnasol mewn rhai achosion]



# Thema 4: Sicrhau y bwrir y ddedfryd

**Beth roeddem yn disgwyl ei weld**

Dylai plant a phobl ifanc fwrw eu dedfryd fel y bwriedir gan y llys. Rydym yn disgwyl bod yr YOT yn mwyhau'r tebygrwydd o ganlyniadau llwyddiannus gan ymgysylltu'n effeithiol â nhw a'u teuluoedd, yn ymateb i ffactorau amrywiaeth perthnasol gan gynnwys talu sylw i'w hiechyd a'u lles, a gweithredu'n briodol os nad ydynt yn ufuddhau.

**Sgôr asesiad achos**

Oddi mewn i asesiad yr achosion, at ei gilydd roedd 83% o'r gwaith a wnaethpwyd i sicrhau y bwrwyd y ddedfryd yn ddigon da.

**Canfyddiadau Allweddol**

1. Mewn rhan fwyaf o achosion, ymgysylltodd yr YJS yn dda â'r plentyn neu berson ifanc a'u rhieni/gofalwyr trwy gydol y ddedfryd. Adeiladon nhw berthnasau adeiladol er budd bob parti a gynhwyswyd yn yr achos, gan gynnwys dioddefwyr.
2. At ei gilydd, rhoddodd yr YJS ddigon o sylw i adnabod ac ymateb i anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc a rhwystrau posibl i ymgysylltu.
3. Mae cyfiawnder adferol yn faes blaenoriaeth i'r YJS ac mae hyn wedi cynhyrchu canlyniadau positif, cynhaliadwy.
4. Rhoddodd yr YJS sylw digonol i gydymffurfio a gorfodi, drwy ymweld â'r plant a phobl ifanc yn eu cartrefi lle bo hynny'n briodol, ac ymateb yn dda i ddiffyg cydymffurfio, yn y rhan fwyaf o achosion.
5. Cafwyd barn defnyddwyr gwasanaethau'n effeithiol, ac ymatebodd yr YJS yn gadarnhaol i adborth.

**Eglurhad o'r canfyddiadau**

**1. Asesiad**

1.1. Roedd asesiad digonol, yn arbennig mewn PSRau, o ffactorau amrywiaeth a rhesymau pam gall plentyn neu berson ifanc ei chael yn anodd gweithio â'r YJS er mwyn cwrdd gofynion eu dedfryd, h.y. rhwystrau i ymgysylltu.

1.2. Roedd tystiolaeth glir bod yr YJS wedi ymroddi i adeiladau perthnasau a rheolwyr achos bron wastad yn ymwneud â'r plentyn neu berson ifanc a'u rhieni/gofalwyr neu eraill arwyddocaol yn yr asesiad o faterion ac anghenion yr achos.

**2. Cynllunio ar gyfer ymyriadau**

2.1. Ni roddwyd sylw digonol i rai meysydd amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu yn y trefniadau cynllunio na'u cynnwys ar gynlluniau. Roedd y rhain yn cynnwys anabledd, hil neu ethnigedd, genethod a merched ifanc, ffactorau'n gysylltiedig â'r plentyn neu berson ifanc mewn gofal awdurdod lleol, ac anghenion llefaru, iaith a chyfathrebu.

2.2. Yn y rhan fwyaf o achosion, roeddem yn falch o weld bod y plentyn neu berson ifanc a'u rhiant/ofalwr neu arall arwyddocaol yn cael eu cynnwys yn y trefniant cynllunio.

## 3. Cyflenwi ymyriadau

3.1. Eto, yn y mwyafrif o achosion, yr oedd y plentyn neu'r person ifanc, a'i riant, ofalwr neu arall arwyddocaol wedi ymgysylltu'n ystyrlon trwy gydol cyflenwi'r ddedfryd.

**Achos eglurhaol**

Roedd cyd-weithio effeithiol gyda gweithiwr ag anableddau dysgu er mwyn cyflwyno'r cynllun 'Pegasus' i mewn i'r achos. Roedd y cynllun hwn yn galluogi plant a phobl ifanc ag anghenion arbennig, yn arbennig rhai'n effeithio ar eu cyfathrebu, i gario cerdyn gyda chyfrinair a oedd yn cysylltu á'r heddlu i mewn i system wybodaeth a'u helpodd nhw i gael mynediad at gefnogaeth ychwanegol.

3.2. At ei gilydd, rhoddodd yr YJS sylw digonol i ganlyniadau iechyd a lles ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc mewn ychydig o dan dri chwarter o achosion. Mewn rhai achosion lle nad oedd hyn wedi digwydd, ni wnaethpwyd y cyfeiriadau angenrheidiol neu nid oedd asiantaethau wedi cyd-lynu eu gwaith yn ddigon da.

**Sylw gan riant/gofalwr:**

"*Maent wedi ei helpu i gael ei fywyd yn ôl yn y cyfeiriad iawn, er ei fod ond yn newid bach, mae wedi gwirioneddol helpu*".

**Sylw gan riant/gofalwr:**

"*Fe wnaethon nhw helpu fy mab i ddatrys y problemau roedden ni'n eu cael a chefnogasant fy mab. Ychydig o fisoedd yn ôl doeddwn i ddim yn meddwl byddai hyn wedi bod yn bosibl*".

**Sylw gan riant/gofalwr:**

"*Fe wnaethon nhw allan o'u ffordd i'w helpu o, roedden nhw bob amser yno i roi cyngor a chefnogaeth.*"

3.3. Mewn ychydig llai na hanner yr achosion a drosglwyddwyd, roedd cyd-weithio i hyrwyddo parhad gwasanaethau i sicrhau y bwriwyd y ddedfryd yn effeithiol.

## 4. Canlyniadau cychwynnol

4.1. At ei gilydd, rhoddodd yr YJS sylw digonol i adnabod ac ymateb i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau go iawn neu phosibl i ymgysylltu.. Cyfarfu ag anghenion ieithyddol yn y rhan fwyaf o achosion ac roedd cyfieithydd ar y pryd wedi eu cyflogi i helpu trafodaethau yn, er enghraifft, Pwyleg, Latfieg a Nepaleg.

4.2. Roeddem yn falch o weld mor dda oedd gweithwyr YJS yn parchu gwerthoedd y plant a'r bobl ifanc yr oeddynt yn gweithio â hwy. Yn aml, dangosent ddealltwriaeth drylwyr o'r materion a wynebai plant a phobl ifanc. Roeddynt wedi

gweithio'n galed i adeiladu perthnasau adeiladol, gyda chymorth lefel uchel o ymweliadau priodol â'r cartref, er mwyn eu cadw wedi eu hymgysylltu a'u cefnogi yn ystod eu dedfrydau.

4.3. Ufuddhaodd y rhan fwyaf o'r plant a phobl ifanc â'u dedfryd, gydag ychydig yn llai na un rhan o dair yn gwneud hynny ar ôl rhai rhwystrau cychwynnol. Gweithredodd yr YJS yn effeithiol a phriodol lle oedd angen i wella ufudd-dod ym mhob achos ond un.

4.4. Roedd trefniadau mewn lle i helpu plant a phobl ifanc adeiladu ar neu gynnal canlyniadau positif. Mewn llawer o achosion, parhaon nhw i weithio ag, er enghraifft, Gyrfaoedd neu CAIS ar ôl cwblhau eu gorchymyn.

## 5. Arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth

5.1. Roedd pob un o'r rheolwyr achos a gyfwelwyd dealltwriaeth ddigonol o bolisïau lleol a threfniadau ar gyfer ymgysylltiad effeithiol cefnogol ac ymateb pan ostyngodd ufudd-dod y plentyn neu berson ifanc i gwrdd â gofynion ei ddedfryd.

5.2. Canfuon bod i'r iaith Gymraeg broffil isel ac nid oedd y rheolwyr achos yn ymwybodol os oedd hyn yn cael unrhyw flaenoriaeth gan reolwyr h□n. Roedd tîm gweinyddol yr YJS yn sicrhau bod templed sefydlu a ddyfeisiwyd yn lleol ar gael ym mhob ffeil. Roedd hyn yn codi'r cwestiwn a oedd well gan y plentyn neu'r person ifanc ddefnyddio'r Gymraeg. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd rheolwyr achos wedi cymryd digon o sylw i archwilio'r ateb i hyn, ond mewn eraill, nid oedd y ffurflen wedi ei chwblhau. Roedd yn galonogol i nodi bod y ffurflen sefydlu llys bellach yn cynnwys sbardun ar gyfer y ddewis iaith.

5.3. Roedd gan waith perthnasol i gyfiawnder adferol broffil uchel yn yr YJS. Roedd staff wedi eu hyfforddi i gefnogi ei gyflenwad yn effeithiol ac yr oedd yr YJS yn cynhyrchu newyddlen *Reparation Times*, a oedd yn adrodd ar weithgareddau gwneud iawn lleol ac oedd yn gynnwys cyrff cymunedol yr oeddent yn gweithio â hwy. Roedd taflenni a ddyfeiswyd yn lleol yn egluro'r broses cyfiawnder adferol. Roedd y rhain yn cyflwyno gwybodaeth glir a pherthnasol am y gwasanaeth hwn ond roedden yn siomedig i weld eu bod wedi eu targedu at gynnulleidfa fwy llythrennog ac ond ar gael yn Saesneg.

5.4. Ceisiai'r YJS a gwasanaethau ymyrryd cynnar, fel y tîm 16 plws, i ymgysylltu'n bositif â phobl ifanc ac i hybu eu dymuniadau a'u teimladau. Fodd bynnag, nid oes cydbwysedd priodol bob tro trwy rhwng barn y person ifanc a'r asesiad proffesiynol o'i fregusrwydd posibl a sut i ateb hyn orau. Mewn nifer bach o achosion, fe ymddangosai or-ddibyniaeth ar wydnwch y person ifanc a'i allu i ddiogelu ei hun.

5.5. Roedd gan yr YJS drefniadau mewn lle i ffrwyno barn defnyddwyr ei wasanaethau trwy ystod o arolygon a cheisiadau am adborth. Roedd wedi ei arolygu'n ddiweddar fel rhan o'i gais i dderbyn Nod Barcud am ymgymeriad defnyddwyr. Roedd tystiolaeth o'r ymroddiad hwn yn cynnwys y newid enw diweddar i'r 'Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid' mewn ateb i sylwadau negyddol gan blant a phobl am iddynt gael eu labelu'n droseddwyr.

5.6. Derbynion adborth positif gan y plant a'r bobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a dioddefwyr am ymroddiad y gweithwyr YJS i'w rôl. Awgrymon un neu ddau o feysydd ar gyfer gwelliant, gan fynegi pryder am apwyntiadau a ganslwyd mewn rhai achosion, y dylanwad oedd rhai plant a phobl ifanc yn ei gael ar eraill yn

ystod eu mynychiad â swyddfa'r YJS a sut oedd yr YJS yn araf i ddatrys problemau yn ymwneud â diffyg trafnidiaeth i helpu pobl ifanc gwrdd â'u hanghenion ar gyfer gwaith di-dâl. Fodd bynnag, dangosodd defnyddwyr gwasanaethau eu gwerthfawrogiad o'r YJS, trwy gymeradwyo’r ffordd roedd rheolwyr achos yn adeiladu perthnasau, yn ennill eu hymddiriedolaeth, yn cyfathrebu â hwy a'u helpu, a'r newid mae hyn wedi dod i fywydau'r plant a phobl ifanc. Teimlodd ddioddefwyr eu bod yn cael eu cefnogi a'u hysbysu ac yn cael eu cynnwys yn effeithiol yn y broses o gyfiawnder adferol.

**Sylw gan ddioddefwr**


Mynegodd un dioddefwr y clod canlynol i'r YJS: “*Y ddau beth mae'r gwasanaeth troseddol ieuenctid wedi eu gwneud yn dda tra maent wedi bod yn gweithio â mi yw cyfathrebu a dangos tosturi. Maent wedi fy nghynnwys i'n wirioneddol yn yr holl broses o gyfiawnder adferol ac wedi fy nghefnogi'n fawr fel dioddefwr*”.

### Crynodeb

*At ei gilydd, roedd gwaith i sicrhau y bwrwyd y ddedfryd yn dda iawn.* Ymgysylltodd yr YJS yn dda â phob defnyddiwr y gwasanaeth. Rhoddwyd proffil uchel i gyfiawnder adferol ac roedd dull o weithredu a oedd yn cynnwys dioddefwyr. Adeiladodd rheolwyr achos berthnasau effeithiol â'r plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, a oedd yn gymorth i ddilyniant trwy gydol y ddedfryd. Er nad oedd materion amrywiaeth yn cael eu cynnwys yn ddigon da bob tro ar gynlluniau, roedd gan reolwyr achos ddealltwriaeth dda o faterion perthnasol a sicrhasant yr ystyriwyd y rhain i ehangu cyflenwi'r ymyriadau. Cymerasant gamau priodol i annog ufudd-dod a, chyda eu partneriaid arbenigol, i gynnal canlyniadau positif a gyflenwyd yn ystod y ddedfryd. Ceisiwyd barn defnyddwyr y gwasanaeth a gweithredwyd yn bositif i gymryd hyn i ystyriaeth.

## Crynodeb o'r Data

Mae'r siart isod yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [DS: Arolygwyd 23 o achosion. Fodd bynnag, gall y cyfanswm o atebion beidio â bod yn gyfartal i hyn, gan gall rai cwestiynau fod yn amherthnasol mewn rhai achosion ]



# Thema 5: Llywodraeth

**Beth roeddem yn disgwyl ei weld**

Mae partneriaeth yr YJS a Bwrdd Rheoli'r YJS yn darparu llywodraeth ddigonol i gwrdd â nodau cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol, ac mae'n cyflenwi canlyniadau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu'n debygol o droseddu a'r gymuned leol. Blaenoriaethir cyfleoedd cydraddoldeb a materion amrywiaeth ehangach drwyddo draw. Mae'r YJS wedi datblyglu partneriaethau sy'n gweithio ar y cyd i sicrhau canlyniadau effeithiol i blant a phobl ifanc sy'n troseddu neu'n debygol o droseddu a'r gymuned leol. Mae'r gan yr YJS gweithlu rheolwyr mewn lle sy'n galluogi staff i gyflenwi ymgysylltiad o ansawdd ac effeithiol. Mae'r YJS yn adolygu ac yn gwerthuso cyflenwad ei wasanaeth yn barhaus.

**Canfyddiadau Allweddol**

1. Ni ddarparodd Bwrdd Rheoli'r YJS arweinyddiaeth strategol digon cryf ar gyfer yr YJS. Roedd yr YJS yn yrrwr strategol allweddol ar gyfer datblygu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu'n debygol o droseddu.
2. Roedd Bwrdd Rheoli'r YJS yn gweithio'n gydlynol i gefnogi'r YJS gwrdd â blaenoriaethau cenedlaethol a chysylltu â mentrau tros-dorri, yn arbennig y rhai sy'n berthnasol i agenda ataliol. Fodd bynnag, roedd rhy ychydig o ffocws ar adnabod ac ateb blaenoriaethau lleol, fel trosglwyddo a materion gofal, ac roedd i'r risg o niwed i eraill a bregusrwydd proffil strategol a oedd yn rhy isel.
3. Ased allweddol yr YJS oedd ei staff lle oedd tystiolaeth glir o fuddsoddiad. Ariannwyd y gwasanaeth er mwyn cwrdd â gofynion daearyddol y sir, i ddatblygu ei ddylanwad a strategol a sgiliau'r tîm.
4. Cymerodd yr YJS ac asiantaethau partner dull o weithredu cynhwysol yn strategol, yn sicrhau bod anghenion gwahanol blant a phobl ifanc sy'n troseddu neu'n debygol o droseddu wedi eu cynnwys mewn cynlluniau a pholisïau ar draws y darn. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth bod gan y Gymraeg flaenoriaeth strategol uchel.

**Eglurhad o'r canfyddiadau**

## 1. Mae nodau cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol yn cael eu cwrdd

1.1. Mae lleoliad yr YJS oddi mewn i'r tîm rheoli gwasanaethau i blant wedi ei alluogi i gael proffil sylweddol yn yr awdurdod. Roedd y rheolwr YJS yn gallu dylanwadu ar agenda ehangach y plentyn ac fe'i parchwyd yn fawr gan gydweithwyr ac asiantaethau eraill.

**Sylw gan asiantaeth partner**

"*Ar ei liwt ei hun mae'r YJS wedi cadw agenda pobl ifanc ar frig blaenoriaethau diogelwch cymunedol am flynyddoedd. Mae'r YJS ym Mhowys yn hynod o fentrus*".

1.2. Tra bod y Bwrdd yn cael ei weld gan aelodau fel awyrgylch diogelu lle gellid herio partneriaid, mewn gwirionedd roedd ychydig iawn o herio. Yr YJS, yn hytrach na'r Bwrdd, a ystyriwyd y gyrrwr allweddol ar gyfer penderfynu ar yr agenda strategol,

gyda'r Bwrdd yn penderfynu cynigion gan yr YJS. Teimlem gallai arweinyddiaeth y Bwrdd fod yn gryfach, gyda'r Bwrdd yn arwain o'r blaen i osod cyfeiriad strategol.

1.3. Cynrychiolwyd pob partner perthnasol ar Fwrdd Rheoli'r YJS. Fodd bynnag, ni roddodd pob asiantaeth gymaint o flaenoriaeth i'r Bwrdd. Er, yn gyffredinol, i'r cyfarfodydd gael eu mynychu gan lawer, nid oedd presenoldeb bob tro ar y lefel iawn ac roedd diffyg cysondeb yng nghynrychiolaeth mewn perthynas â thai, ysgolion, y gwasanaeth prawf a'r heddlu. Ychydig o asiantaethau oedd wedi codi eu proffil strategol trwy'r Bwrdd. Fodd bynnag, gwelwyd yr iechyd ac aelodau'r YJS yn arbennig o effeithiol yn ystod cyfarfodydd o'r Bwrdd a gweithiasant trwy'r Bwrdd i wella adnoddau a chyflenwad gwasnaeth.

## 2. Mae partneriaethau effeithiol yn gwneud gwahaniaeth

2.1. Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd yn eistedd ar grwpiau eraill a Byrddau gydag agendâu oedd yn torri ar draws, ac roeddynt yn gallu dod â gwybodaeth berthnasol i gyfarfodydd o'r Bwrdd. Yr oedd yr YJS, yn gweithio'n galed i sicrhau y pwysleisir anghenion ei blant a phobl ifanc ym mhob arena, yn cael ei gynrychioli ym mhob cyfarfod amlasiantaethol perthnasol ac roedd ganddo ddull o weithredu positif i rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill.

2.2. Fodd bynnag, yn ein barn ni, roedd gormod o or-gyffwrdd o grwpiau strategol, paneli a byrddau. Roedd y rhain yn cynnwys Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y LSCB, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Bwrdd Rheoli'r YJS, a'u his-grwpiau perthnasol. Yn ychwanegol, roedd ystod o grwpiau wedi eu cysegru i'r ddarpariaeth o adnoddau. Er bod y gynrychiolaeth hon yn galluogi'r YJS i ddylanwadu ar yr agenda strategol a datblygiad y gwasanaeth, roedd y nifer o grwpiau yn golygu bod effaith sylweddol ar amser y rheolwyr. Roedd hefyd y posibilrwydd o ddyblygiad. Nid oedd yn glir sut oedd materion oedd yn torri ar draws yn cael eu rheoli rhwng partneriaethau o ystyried eu ffocws a chyfrifoldebau statudol gwahanol. Roeddem yn falch i nodi bod Powys yn rhoi rhaglen o resymoli partneriaethau trwy gydnabod bod dyblygu ac ail-adrodd cynrychiolaeth a gwaith ar draws ystod o grwpiau strategol a thros sector gweithredol. Rydym yn disgwyl dylai hyn arwain at ddefnydd mwy llyfn ac effeithiol o amser ac effaith ar bawb sy'n gysylltiedig â'r mater.

**Achos eglurhaol**

Roedd yr YJS yn cael ei gynnwys yn weithredol yn y broses ymddygiad gwrth-gymdeithasol (ASB) ac yr oedd yn un o'r mannau cyswllt cyntaf ar gyfer y cyd-lynydd ASB ar gyfer cyfeiriadau plentyn neu berson ifanc, i sefydlu beth oedd y hysbys amdanynt. Cynhwyswyd yr YJS hefyd yng Ngham 3 o gyfarfodydd aml-asiantaethol i drafod anghenion iechyd, addysg, cyfryngu a gwrthdyniadol ac i gynnal ymweliadau ar y cyd gyda'r heddlu i gyflenwi contractau ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

## 3. Mae arweinyddiaeth gweithlu a rheolaeth yn cefnogi cyflenwi gwasanaeth o ansawdd

3.1. Ariannwyd yr YJS i gwrdd â'i rôl yn effeithiol, a rhannwyd ei waith rhwng dau dîm - un yn y De a'r llall yn y Gogledd. Strwythurwyd y timau'n ofalus i gynnwys yr holl sir, gyda Rheolwr Gweithrediadau ym mhob un o'r ddau safle. Lleolwyd y gweithwyr iechyd meddwl a'r gweithwyr yr heddlu yn y De, ond roedd tystiolaeth

yr oeddynt wedi gweithio'n galed i sicrhau nad oedd hyn wedi arwain at wasanaeth anghyfartal.

3.2. Roedd tystiolaeth bod yn hawdd mynd at y rheolwyr gweithrediadau, ac ar gael mewn fawr o dro, i gefnogi'u staff. Hyrwyddasant sesiynau arolygu rheolaidd gyda rheolwyr achos ac maent i'w clodfori am sicrhau eu bod wedi ymgeisio'n rhagweithiol trafodaethau yngl□n â nid yn unig yr achosion mwy cymhleth ac o risg uchel, ond mewn perthynas ag achosion trwyddynt draw. Cynheliwyd cyfarfodydd o'r timau a staff er mwyn diweddaru staff a'u cynnwys yn natblygiad gwasanaethau, ac yn ddiweddar roedd gr□p ymarfer adlewyrchol wedi ei sefydlu ar gyfer y tîm yn y De.

3.3. Mae bwrdd gweithlu integredig Powys yn darparu dull o weithredu aml-asiantaethol i hyfforddiant a chafodd staff yr YJS y cyfle o fynychu unrhyw gwrs a gynigwyd yn y daflen ar hyfforddiant integredig. Roedd amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant mewn tîm gan gynnwys meysydd fel cyfiawnder adferol, cyfweld ysgogol, ymddygiad gwybyddol, llefaru a chyfathrebu, ymyriadau wedi eu ffocysu ar atebion a gweithio â chymunedau amrywiol, fel teithwyr. Roedd hyfforddiant Lucy Faithfull[2], i godi ymwybyddiaeth o gwmpas diogelu plant, hefyd wedi ei gyflenwi. Yn aml roedd ceisiadau gan staff ar gyfer hyfforddiant i gyflawni dyheadau unigol yn cael eu hateb yn ffafriol.

## 4. Cyflwynir a chynhelir canlyniadau positif

4.1. At ei gilydd, roedd rheolaeth perfformiad a'r defnydd o ddata perfformiad lleol i wella gwasanaethau wedi eu tan-ddatblygu. Gyrrwyd blaenoriaethau Bwrdd Rheoli'r YJS , gan fwyaf, gan yr agenda cenedlaethol. Darparwyd data perfformio i'r Bwrdd a'i ddadansoddi er mwyn adnabod ac ateb meysydd o berfformiad is yn erbyn dangosyddion YJB. Nid oedd y Bwrdd wedi adnabod eto dangosyddion lleol ychwanegol nac archwilio a herio materion lleol pwysig yn berthnasol i, er enghraifft, achosion a drosglwyddwyd rhwng ardalaoedd ac i'r gwasanaeth prawf. Roedd yn amlwg fod diogelu'n flaenoriaeth ar draws Powys gyda'r LCSB yn arwain ar hyn. Fodd bynnag, yr oedd gradd ymgysylltiad a oedd gan y Bwrdd Rheoli â materion perthnasol a sut oedd hyn yn cyfieithu i arweinyddiaeth strategol yn aneglur. Nid oedd tystiolaeth ychwaith bod y Bwrdd Rheoli wedi gyrru gwelliant mewn perthynas â rheoli'r risg o niwed i eraill. Gan hynny, barnon fod y proffil strategol o reoli'r risg o niwed i eraill a diogelwch plant a phobl ifanc yn rhy isel o lawer.

4.2. Cefnogwyd ffocws a chyfeiriad yr YJS gan Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid, a oedd yn rhagweld blaenoriaethau yn y dyfodol. Roedd hyn yn bwydo Cynllun Gweithredu Busnes yr YJS, dilyniant yr hwn a adolygwyd yn rheolaidd. Fodd bynnag, roedd y cynllun hwn yn cynnwys rhy ychydig o fanylion a chyd-destun ac, er ei fod yn cyffwrdd â chyfiawnder adferol, nid oedd yn annog adolygu na datblygu gwasanaethau YJS yn ymwneud â diogelu a risg o niwed i eraill.

4.3. Cyflwynwyd adroddiadau perfformiad cynhwysfawr i'r Bwrdd gan yr YJS, y nyrs iechyd meddwl, CAIS a'r Panel Cefnogaeth Cynhwysiad Ieuenctid. Fodd bynnag, nid oedd darlun clir o ba mor dda oedd plant a phobl ifanc a gynhwysid gyda'r YJS yn symud ymlaen yn eu haddysg, er bod hyn yn nod o Gynllun Gweithredu'r YJS. Nid oedd unrhyw fesur o gyrhaeddiad, ac ond ychydig o dystiolaeth yn seiliedig ar

[2] Mae Lucy Faithfull yn elusen ar draws y DU sy'n ywneud â diogelu plant ac yn ymroddedig i leihau'r risg i blant a phobl ifanc gael eu cam-drin yn rhywiol.

ddarpariaeth safonol. Roedden yn falch o nodi bydd hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth yng nghynllun gweithredu Estyn, sy'n cael ei ddatblygu drwy wasanaethau addysgiadol.

4.4. Dylid cymeradwyo'r YJS am ei ymdrechion i ddeall tueddiadau troseddu lleol. Wedi ei gychwyn trwy Fwrdd Rheoli'r YJS, roedd wedi ymgymryd ag ymchwil i ganfod y dolenni rhwng eithrio o addysg a throseddu, ac wedi ymestyn y darn hwn o waith i adnabod dulliau eraill effeithiol o helpu i atal plant a phobl ifanc rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Yn ychwanegol, tra nad oedd yr YJS wedi cwblhau ei asesiad o'i anghenion ei hun yn ddiweddar, roedd yn cyfrannu at, yn cynghori, ac yn tynnu ar asesiad o anghenion a ymgymerwyd gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol lleol.

4.5. Rhoddodd y sir bwyslais cryf ar gwrdd ag anghenion unigol holl bobl fregus Powys ac, mewn ymdrech i beidio â phardduo plant a phobl ifanc sy'n troseddu, cymerodd dull o weithredu cwbl integredig yn ei ddarpariaeth o wasanaethau.. Yn gyffredinol, rhoddwyd digon o sylw i faterion amrywiaeth, er yn rhai achosion roedd hunanfodlonrwydd yngl□n â defnydd o'r Gymraeg.

**Crynodeb**

*At ei gilydd, roedd gwaith perthnasol i lywodraeth yn anfoddhaol.* Roedd Bwrdd Rheoli'r YJS yn gorff cydlynol, cynrychioladwy iawn, a ddarparodd lwyfan da ar gyfer rhannu gwybodaeth a chefnogi gwaith yr YJS i gwrdd â'i flaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oedd yn darparu arweinyddiaeth ddigon cryf ar droseddu gan bobl ifanc. Roedd ond ychydig o yrru strategol oddi wrth y Bwrdd Rheoli i archwilio a herio problemau lleol pwysig, fel y rhai yn ymwneud ag achosion a drosglwyddwyd rhwng ardaloedd a'r gwasanaeth prawf, rheoli'r risg o niwed i eraill a diogelu plant a phobl ifanc.

Roedd dull o weithredu aml-asiantaethol i ddatblygu gwasanaethau ar draws Powys, gyda ffocws ar gwrdd ag anghenion plant bregus fel gr□p holistaidd. Cymerodd yr YJS gamau positif i sicrhau bod plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu neu'n debygol o droseddu yn cael eu cadw'n uchel ar agenda'r sir a bod gwasanaethau'n cymryd eu hanghenion i ystyriaeth.

Ariannir yr YJS i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac roedd gan y tîm integredig ddealltwriaeth dda o'r egwyddorion o ymarfer effeithiol.

# Atodiad 1

### Gwybodaeth gyd-destunol am yr ardal a archwiliwyd

Roedd gan Bowys boblogaeth o 133,000 fel y'i mesurwyd yng Nghyfrifiad 2011. Roedd poblogaeth ieuenctid (rhai rhwng 10 a 17 mlwydd oed) cyfrif am 10.0% o'r boblogaeth. Roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr, a oedd yn 9.4%.

Y canran o boblogaeth ieuenctid â threftadaeth du ac ethnig lleiafrifol oedd 3.1% (SYG, amcangyfrif canol blwyddyn poblogaeth 10-17, du ac ethnig lleiafrifol 2009). Roedd hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr a oedd yn 14.1%.

Roedd troseddau a riportiwyd ar gyfer plant a phobl ifanc 10-17 a dderbyniodd warediad cyn achos llys neu yn ystod achos llys yn 2010/2011, 24 y 1,000 yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, 33 (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2010-2011).

### Dangosyddion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Mae dangosyddion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn fesurau cenedlaethol o waith a pherfformiad YOT:

***Mesurau ail-droseddu:***

(i) O'r plant a phobl ifanc hynny sydd wedi derbyn cerydd, rhybudd olaf, collfarn neu a ryddhawyd ar fechnïaeth neu a brofwyd yn bositif am gyffur Dosbarth A pan yr arestiwyd nhw, y gyfran sy'n ail-droseddu oddi mewn i gyfnod 12 mis o riportio. Roedd y gyfran o ail-droseddu ar gyfer Powys yn 34%, yn well na'r 35.8% am Gymru a Lloegr gyfan.

(ii) O'r plant a phobl ifanc hynny sydd wedi derbyn cerydd, rhybudd olaf, collfarn neu a ryddhawyd ar fechnïaeth neu a brofwyd yn bositif am gyffur Dosbarth A pan yr arestiwyd nhw, y cyfartaledd o ail-droseddu oddi mewn i 12 mis, y 100 o blant o bobl ifanc o'r fath. Ar gyfer Powys, roedd 0.77 trosedd y plentyn neu berson ifanc sy'n ail-droseddu, yn well na'r 1.03 am Gymru a Lloegr gyfan.

(Data yn seiliedig ar garfan Ebrill 2010 - Maw 2011).

***Mesur rhai sy'n dod i mewn am y tro cyntaf:***

Y nifer o blant a phobl ifanc a dderbyniodd eu cerydd cyntaf, rhybudd olaf neu gollfarn (a chan hynny daeth i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid) oddi mewn i gyfnod o 12 mis, fel cyfran y 100,000 o rai rhwng 10 a 17 mlwydd oed yn y boblogaeth gyffredinol. Y ffigwr ar gyfer Powys yw 641, o'i gymharu â 595 am Gymru a Lloegr.

(Data yn seiliedig ar garfan Hydref 2011 - Medi 2012).

# Atodiad 2

### Gwybodaeth gyd-destunol am y sampl achosion a arolygwyd

Yn ystod wythnos gyntaf y gwaith maes, edrychon ar sampl gynrychioladol o 23 o achosion unigol hyd at 12 mis oed, rhai cyfredol, eraill wedi terfynu. Roedd y rhain yn cynnwys achosion rheng gyntaf (gorchmynion atgyfeirio a gorchmynion gwneud iawn), gorchmynion adsefydlu ieuenctid (gan fwyaf y rheini ag anghenion goruchwylio), ac un gorchymyn cadw a hyfforddi.

Roedd y sampl yn ceisio adlewyrchu gwneuthuriad yr holl lwyth achos ac roedd yn cynnwys nifer o'r rhai sydd o risg uchel o niwed i eraill, yn arbennig o fregus, yn ferched ifanc neu sy'n blant a phobl ifanc ddu ac ethnig lleiafrifol.

# Atodiad 3

## Diolchiadau

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Arwain** | Vivienne Clarke, *Arolygiaeth Prawf EM* |
| **Dirpwy Arolygydd Arwain** | Helen Davies, *Arolygiaeth Prawf EM* |
| **Tîm Arolygu** | Mark Bishop, *Asesydd Lleol*<br>Rob Bowles, *Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM*<br>Mary Browning, *Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru*<br>Rachael Bubalo, *Estyn*<br>Zoe Jenkins, *Swyddog Ymgysylltu Defynydddiwr*<br>Iolo Madoc-Jones*, Arolygiaeth Gwasaneth Prawf EM*<br>Katy Young, *Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru* |
| **Gwasanaethau Cymorth Arolygiaeth Prawf EM** | Oliver Kenton, *Swyddog Ymchwil Cynorthwyol*<br>Lynne Osborn, *Swyddog Gwasanaethau Cefnogol*<br>Alex Pentecost, *Rheolwr Cyhoeddiadau*<br>Christopher Reeves, *Darllenydd Proflenni*<br>Robert Turner, *Rheolwr Gwasanaethau Cymorth* |
| **Prif Arolygydd Cynorthwyol** | Julie Fox, *Aroygiaeth Prawf EM* |

# Atodiad 4

### Trefniadau Arolygu

Mae'r rhaglen Arolygiad Llawn ar y Cyd (FJI) yn arolygu gwaith troseddau ieuenctid mewn nifer bychan o awdurdodau lleol bob blwyddyn. Yn bennaf oll, mae'n ffocysu ar ansawdd gwaith mewn achosion cymunedol a chystodol yn ystod y ddedfryd hyd at ddyddiad yr arolygiad. Ei nod yw ceisio sicrhad bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn cael ei wneud yn ddigon da i gyflawni'r canlyniadau cywir. Y pedair thema graidd ar gyfer yr arolygiad hwn yw:

- lleihau'r tebygrwydd o ail-droseddu
- diogelu'r cyhoedd
- diogelu'r plentyn neu berson ifanc
- sicrhau y bwrir y ddedfryd.

### Methodoleg

Ymgymerwyd â'r gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn yn ystod yr wythnosau'n cychwyn ar:

25 Chwefror 2013 a 11 Mawrth 2013.

Hysbysir YOTau 11 diwrnod gwaith cyn i'r arolygiad ddigwydd. Y prif ffocws yw ansawdd y gwaith a ymgymerir â phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, waeth pwy bynnag sy'n ei gyflenwi. Aseswyd achosion gan dîm o staff arolygu gydag aseswyr lleol (aseswyr cyfoed o YOT arall) Maent yn archwilio'r rhain â rheolwyr achos, a wahoddir i egluro sut maent yn meddwl ac i adnabod tystiolaeth gefnogol yn y cofnod.

Cyn, neu yn ystod yr wythnos gyntaf hon, rydym yn derbyn copïau o ddogfennau lleol perthnasol. Yn ystod yr wythnos yn y canol, mae'r data o asesiadau'r achosion yn cael eu casglu at ei gilydd ac mae darlun o ansawdd gwaith yr YOT yn ymddangos.

Yr ail wythnos o waith maes yw'r elfen ar y cyd o'r arolygiad – Mae arolygwyr cyd-weithiol eraill o'r heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn ymuno ag Arolygiaeth Prawf EM i archwilio'n fwy manwl y themâu sydd wedi ymddangos o'r asesiadau achos. Yn arbennig, archwilir yr elfennau arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth cyn belled ag y maent yn cyfrannu, neu fel arall at ansawdd y gwaith a gyflenwyd.

Yn ystod yr wythnos hon, rydym hefyd yn casglu barn pobl eraill, gan gynnwys rheolwyr strategol, staff a defnyddwyr gwasanaethau – plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr, a lle bo'n bosibl arsyllu gwaith sy'n digwydd. O Ebrill 2013 byddwn hefyd yn casglu barn plant a phobl ifanc trwy gyfrwng holiadur.

Ar ddiwedd yr ail wythnos o waith maes, rydym yn cyflwyno'n canfyddiadau i reolwyr strategol lleol, y Tîm Rheoli YOT a phartïon eraill â diddordeb yn y materion hyn.

### Trefniadau cyhoeddi

Anfonir adroddiad drafft i'r YOT am sylw tair wythnos ar ôl yr arolygiad, gyda chyoeddi tua chwe wythnos yn ddiweddarach. Yn ychwanegol, mae copi yn mynd at y Gweinidogion perthnasol, arolygiaethau eraill, Gr□p Polisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r YJB. Mae copïau yn cael eu gwneud ar gael i'r Wasg ac fe'u rhoddir ar ein safle gwe.

Cyhoeddir adroddiadau FJI yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gellir canfod mwy ar sut cynhelir yr arolygiadau hyn ar ein safle gwe yn y ddogfen *'Fframwaith ar gyfer Rhaglen Arolygiad FJI'* yn:

http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation/inspection-programmes-youth/full-joint-inspection-fji-of-youth-offending-work

# Atodiad 5

**Dull o Sgorio**

Mae hyn yn disgrifio'r fethodoleg ar gyfer dyrannu sgorau ar gyfer pob un o'r themâu craidd:

- Lleihau'r tebygrwydd o ail-droseddu
- Diogelu'r cyhoedd
- Diogelu'r plentyn neu berson ifanc
- Sicrhau y bwrir y ddedfryd.

Mae'r staff arolygu yn astudio pa mor dda y gwnaethpwyd y gwaith ar draws yr achos - o asesu i gynllunio i ymyriadau a chanlyniadau, yn ffocysu ar ba mor aml y gwnaethpwyd pob agwedd o'r gwaith yn ddigon da. Mae hyn yn dod â pherfformiad o elfennau cysylltiedig o ymarfer at ei gilydd o bob achos a arolygir.

Mae pob cwestiwn sy'n sgorio yn yr erfyn arolygu yn cyfrannu at y sgôr ar gyfer yr adran berthnasol o'r adroddiad. Drwy hyn, mae'r themâu craidd yn ffocysu ar ganlyniadau allweddol.

Mae'r dull o weithredu hwn yn sin galluogi i ddweud pa mor aml y gwnaethpwyd pob agwedd o'r gwaith yn ddigon da, ac yn darparu'r YOT a arolygwyd â ffocws clir ar ei weithgareddau gwelliannol. Dyrennir pob thema graidd sgôr canrannol (mesurol) sydd, ynghyd â disgrifydd, wedi yn derbyn lefel o sêr dros dro.

| Sgôr asesiad achos | Disgrifydd | Sêr |
|---|---|---|
| 80% + | Da iawn | ★★★★ |
| 65% - 79% | Da | ★★★☆ |
| 50% - 64% | Anfoddhaol | ★★☆☆ |
| < 50% | Gwael | ★☆☆☆ |

Mae i bob un o'r themâu hyn elfennau o arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth na ellir cael tystiolaeth ohonynt trwy'r system sgorio ar gyfer achosion unigol, ac sydd yn ffocws arbennig o waith arolygiaethau partner. Mae proses cymredoli wedyn yn cymryd i ystyriaeth yr elfennau hyn er mwyn pennu'r dangosydd terfynol.

Sgorir modiwlau ychwanegol ar sail debyg.

Os oes diffygion difrifol a heb eu hateb, mewn achosion unigol, yn ymwneud â'r risg o'r plentyn neu berson ifanc ddioddef neu achosi niwed sy'n gadael rhywun mewn risg, yna gall hyn olygu ffactor cyfyngol i'r lefel o sêr.

Gellir canfod mwy ar y broses hon ar ein safle gwe

http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation/inspection-programmes-youth/full-joint-inspection-fji-of-youth-offending-work

# Atodiad 6

**Meini Prawf**

Mae'r agweddau o waith troseddau ieuenctid a gynhwysir yn y themâu craidd yn yr arolygiad hwn wedi eu diffinio yn y Meini Prawf Arolygiaeth ar gyfer Arolygiaeth Llawn ar y Cyd. Mae copi o'r meini prawf arolygiaeth ar gael o safle gwe'r Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf EM yn y cyfeiriad canlynol:

www.justice.gov.uk/about/hmi-probation/inspection-programmes-youth/full-joint-inspection-fji-of-youth-offending-work

Cyhoeddir meini prawf ar wahân ar gyfer pob modiwl a arolygir, ac maent ar gael o'r un cyfeiriad.

# Atodiad 7

**Rhestr Termau**

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad gwrthgymdeithasol/Gorchymyn Ymddygiad |
| Asset | Offeryn asesu systematig sy'n seiliedig ar ymchwil ac wedi ei ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd y person ifanc,yr amgylchiadau personol aír agweddau aír credoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddu |
| CAIS | Mae CAIS yn ddarparydd sector gwirfoddol o wasanaethau cyffuriau ac alcohol ar draws Cymru |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yndarparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf |
| CJS | Criminal justice system neu System cyfiawnder troseddol. Yn cynnwys unrhyw neu bob asiantaeth sy'n gysylltiedig â cynnal a gweithredu'r gyfraith - yr heddlu, llysoedd, Timau Troseddwyr Ifanc, gwasanaeth prawf a charchardai |
| CPF | Case Planning Forum neu Fforwm Cynllunio Achosion: y cerbyn drwy'r hyn mae YJS Powys yn ceisio darparu cynlluniau rheoli risg effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc a aseswyd i fod ar risg lefel o ail-droseddu a/neu'n cyflwyno risg o niwed difrifol i eraill a/neu fe'u hystyrir yn fregus.<br>Gelwir ynghyd panelau CPF aml-asiantaethol i hyrwyddo'r broses |
| AGGCC | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella dysgu unigolyn, ac i wella eu rhagolygon gwaith |
| FTE | Full-time equivalent neu Gyfwerth ag amser llawn |
| HIW | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| HM/EM | Ei Mawrhydi |
| Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf EM | Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf EM |
| IOM | Integrated Offender Management neu Rheoli Troseddwyr Integredig: yn darparu fframwaith ar gyfer asiantaethau i gymryd dull o weithredu cyd-lynol i reoli troseddwyr sydd ar risg uchel o achosi niwed difrifol i eraill neu o ail-droseddu. |
| Ymyriadau; ymyriadau *adeiladol* a chyfyngol | Gwaith gydag unigolyn a ddyfeisiwyd i newid ei ymddygiad troseddu neu i helpu i warchod y cyhoedd.<br>Ymyriad *adeiladol* yw un lle mae'r prif bwrpas yw lleihau'r tebygrwydd o ail-droseddu.<br>Ymyriad *cyfyngol* yw un lle mae'r prif bwrpas yw lleihau risg unigolyn o niwed i eraill.<br>Er enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai *ymyriad adeiladol* ei roi iddo drwy raglen troseddwyr rhyw achredig; gallai *ymyriad cyfyngol* (i leihau ei risg o niwed) gael ei roi iddo i fonitro yn gyson a thrylwyr ei lety, ei gyflogaeth ac unrhyw le mae'n mynd iddo'n aml, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos.<br>DS. Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig |

| | |
|---|---|
| Tebygrwydd o ail-droseddu | Gweler hefyd ymyriadau *adeiladol* |
| LSCB | Local Safeguarding Children Board neu Bwrdd Diogelu Plant Lleol: wedi ei sefydlu ym mhob awdurdod lleol (o ganlyniad i Ddeddf Plant 2004) i gyd-lynu a sicrhau effeithiolrwydd y gwaith aml-asiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn yr ardal honno. |
| MAPPA | Multi-Agency Public Protection Arrangements neu Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio ar y cyd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno risg o niwed uwch i eraill. |
| Cyn-CAF | Yn syml, 'Cais am Wasanaeth' yw hwn mewn sefyllfa lle nad oes efallai angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, e.e. Iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. |
| PSR | Pre-Sentence Report neu Adroddiad Cyn-Dedfrydu: ar gyfer y llys |
| *Risg o niwed i eraill* | Gweler hefyd ymyriadau *cyfyngol* |
| *'Gwaith Risg o niwed i eraill', neu 'Gwaith Risg o niwed'* | Dyma'r term a ddefnyddir fel arfer gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith a wneir i warchod y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio *ymyriadau cyfyngol,* er mwyn lleihau unrhyw gyfle sydd gan yr unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi Risg o Niwed i eraill |
| RoSH | Risk of Serious Harm neu Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn Asset. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf EM beidio â defnyddio'r term hwn oherwydd nid yw'n helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng pa mor *debygol* yw rhywbeth o ddigwydd ac o *effaith/difrifoldeb* y digwyddiad. Mae'r term *Risg o Niwed Difrifol* yn ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod 'risg o niwed' yn golygu y gellir rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny lle mae ymddygiad niweidiol sy'n cael llai o*effaith/sy'n llai difrifol* yn *debygol* |
| Diogelu | Gallu dangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau'r risg bod plentyn neu berson ifanc yn cael niwed |
| Dull Graddedig | Y modd drwy'r hyn mae Timau Troseddwyr Ifanc yn pennu amlder cyswllt â phlentyn neu berson ifanc, yn seiliedig ar ei RoND a'i debygrwydd o ail-droseddu |
| YJB | Youth Justice Board neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr |
| YOI | Young Offenders Institution neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i blant a phobl ifanc sydd wedi eu carcharu ar remand neu wedi eu dedfrydu i gystodaeth |
| YOIS+ | Youth Offending Information System neu'r System Gwybodaeth Troseddau Ieuenctid: un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd |
| YOS/YOT/YJS | Youth Offending Service/Youth Offending Team/Youth Justice Service neu Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc/Tîm Troseddwyr Ifanc/Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r rhain yn deitlau cyffredin am gyrff a gyfeirir atynt yn gyffredin fel YOTau |
| YRO | Mae'r gorchymyn adsefydlu ieuenctid (youth rehabilitation order) yn ddedfryd gymunedol enerig a ddefnyddir â phlant a phobl ifanc sy'n troseddu |

# Atodiad 8

### Rôl Arolygiaeth Prawf EM a Chod Ymarfer

Gall wybodaeth ar rôl Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer eu canfod ar ein safle gwe:

www.justice.gov.uk/about/hmi-probation

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n disgyn oddi mewn i'w gwmpas ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Gwasanaeth Prawf EM
6th Floor, Trafford House
Chester Road
Manceinion
M32 0RS